Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 28ain Mawrth, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MAWRTH 2017 | | | 3 - 13 |
| 6 | PEIRIANNAU HUNANWASANAETH LLYFRGELLOEDD | Cyng/Cllr. Ioan Thomas | Catrin Thomas | 14 - 16 |
| 7 | CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 - CEISIADAU AM ADNODDAU YCHWANEGOL | Cyng/Cllr. Mandy Williams-Davies & Ioan Thomas | Catrin Thomas & Dylan Griffiths | 17 - 33 |
| 8 | CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 P9 POBL IFANC A'R DERFNYDD O'R GYMRAEG YN GYMDEITHASOL | Cyng/Cllr. Gareth Thomas & Dyfrig Siencyn | Garem Jackson | 34 - 37 |
| 9 | CYNLLUN ASEDAU'R CYNGOR 2009/10 I 2018/19 | Cyng / Cllr Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 38 - 46 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG | Cyng / Cllr Gareth Thomas | Iwan Trefor Jones | 47 - 58 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD | Cyng / Cllr Dyfrig Siencyn | Dilwyn WIlliams | 59 - 66 |
| 12 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD | | | 67 |
| 13 | TIR YN LLANRUG | Cyng/Cllr. Dafydd Meurig | Arwyn Thomas & Diane Jones | |

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Edwards (Cadeirydd), Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Gareth Thomas, W. Gareth Roberts, Ioan Thomas, John Wynn Jones a Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol-** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

Eitem 6: Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn (Rheolwr Busnes), Owain B Williams (Prif Gyfrifydd Oedolion, Iechyd a Llesiant), Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol).
Eitem 7: Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Eitem 8/9/10: Sioned E Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol)
Eitem 12: Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol).
Eitem 13: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd)
Eitem 15/16/17: Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Mair Rowlands, Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION O GYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 14 2017

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 14eg o Chwefror, 2017, fel rhai cywir.

## 6. FFIOEDD CARTREFI GOFAL ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Roberts

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r ffioedd canlynol ar gyfer 2017-18

| Categori Gofal | £ yr wythnos |
|---|---|
| Preswyl | £507.45 |
| Preswyl – Dementia/EMI | £566.75 |
| Nyrsio | £587.23* |
| Nyrsio – Dementia/EMI | £617.93* |

*Nid yw'n cynnwys cyfraniad Iechyd

**TRAFODAETH**

Yn flynyddol mae angen adolygu'r ffioedd cartrefi gofal annibynnol. Mae wedi ei nodi dan adran 35 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fod gan y Cyngor ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sy'n preswylio'n arferol yn yr ardal. Nodwyd fod llawer o waith trafod wedi ei wneud gyda darparwyr, ac mae Grŵp Ffioedd Cartrefi Gofal Gogledd Cymru wedi gwneud llawer o waith ymchwil torfol.

Pwysleisiwyd fod categorïau amrywiol yn y maes, ac mae wedi amlygu fod gofal nyrsio yn her yng Ngwynedd, ac o ganlyniad mae'r ffioedd yn adlewyrchu'r straen ychwanegol ar nyrsio. Mynegwyd fod ffioedd yn amrywio o sir i sir ond fod yr amrediad yn isel ac o gwmpas rhyw £20.

'Roedd y ffioedd ar ffurf drafft wedi bod yn Fforwm Darparwyr, nodwyd fod yr ymateb yn gadarnhaol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd am bwynt 7 yn yr adroddiad a oedd yn Ddyfarniad Achos Llys. Nodwyd fod Achos Llys yn y Goruchaf Lys yn ystod mis Ebrill, a dadl a'i Awdurdod Lleol yntau'r Bwrdd Iechyd sydd am dalu am swm bychan o arian. Gall yr achos effeithio ar y ffioedd yma - ond bydd rhaid ystyried y sefyllfa ymhellach wedi i'r dyfarniad ddod i law.

## 7. TROSGLWYDDO BALASAU YSGOLION SY'N CAU - NEWID GEIRIAD CYNLLUN ARIANNU YSGOLION

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Newid geiriad cymal 4.8 o Gynllun Ariannu Ysgolion i ddarllen fel a ganlyn:

> **4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion**
> Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

**TRAFODAETH**

Nodwyd ar hyn o bryd fod y geiriad yn darllen fel y canlynol:

> **4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion**
> Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, hyn yn oed lle bo'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau.

Ar hyn o bryd, os bydd ysgolion yn cau y bydd balansau yn mynd yn ôl i'r awdurdod. Nodwyd fod yr Adran Addysg yn teimlo ei bod yn fwy synhwyrol, os yw ysgol yn olynu'r ysgol sy'n cau, fod y balansau yn symud i'r ysgol newydd. Pwysleisiwyd fod y mater wedi ei drafod yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion sydd yn argymell y newid, ac mae trafodaethau wedi bod gyda'r ysgolion.

## 8. CYNLLUN STEM GOGLEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Davies-Williams

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r canlynol:

- Cadarnhau penderfyniad i Gyngor Gwynedd arwain y Cynllun Rhanbarthol ar ran y 4 Sir.
- Yn amodol ar gymeradwyaeth WEFO, fod yr aelod cabinet mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Economi yn derbyn y cynnig grant o hyd at £1,461,000.
- Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo hyd at £150,000 o'r Gronfa Cydariannu tuag at y Cynllun.

**TRAFODAETH**

Nodwyd mai pwrpas y prosiect yw codi brwdfrydedd a sgiliau pobl ifanc yn benodol mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

Pwysleisiwyd ei fod yn brosiect ar y cyd gyda 3 Awdurdod Lleol Gogledd Orllewin Cymru (Conwy, Môn a Dinbych) i roi cais am arian o gronfa gymdeithasol Ewropeaidd i ddatblygu'r cynllun.

Disgwylir dyfarniad WEFO a'r cynnig grant ym mis Ebrill 2017.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd fod y cynllun yn un sy'n cael ei ariannu gan arian Ewropeaidd, a chodwyd cwestiwn ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl 3 blynedd. Pwysleisiwyd fod prosiectau pellgyrhaeddol wedi ei ariannu gan arian Ewropeaidd dros y blynyddoedd. Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth yn gyfredol i geisio creu strategaeth.
- Gan fod y prosiect wedi ei anelu at bobl ifanc 11-19 oed, holwyd os oes gwaith yn cael ei wneud gyda'r oedran cynradd. Nodwyd fod cyfyngiadau ar y prosiect STEM ar gyfer oedran penodol, ac fod darpariaeth cynradd yn cael ei arwain drwy'r Bwrdd Uchelgais.
- Trafodwyd deilliannau'r prosiect, gan fod yr adroddiad yn nodi deilliannau rhanbarthol. Cadarnhawyd fod deilliannau penodol ar lefel sirol ac fesul ysgolion penodol.
- Nodwyd brwdfrydedd wrth annog y pynciau hyn, ond fod sicrhau athrawon yn y pynciau yn gallu bod yn her – mynegwyd fod hyn yn bryder ond gall annog athrawon i'r dyfodol.
- Awgrymwyd fod angen hefyd sicrhau fod Gwe yn rhan o unrhyw gynllun a chadarnhawyd fod hynny wedi digwydd.

## 9. CYNLLUN AD-TRAC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies

**PENDERFYNWYD**

- Cymeradwyo'r Pennaeth Economi a Chymuned i dderbyn cynnig grant o £1,203,437 yn amodol ar ddyfarniad Swyddfa Ariannu Ewrop i weithredu Cynllun AD-TRAC yng Ngwynedd.
- Ymrwymo i gydariannu'r cynllun hyd at £492,095 drwy'r dull a nodir yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Dyma brosiect ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo-Menai a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i weithio gyda pobl ifanc 16-24 oed sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth drwy roi cefnogaeth ddwys i'w galluogi i symud yn nes at addysg, hyfforddiant neu waith. Pwysleisiwyd mai pobl ifanc mwyaf bregus y gymdeithas fydd yn rhan o'r prosiect hwn.

Nodwyd ei fod yn brosiect gwerth £1.2miliwn. Nodwyd fod diweddariad ers cyhoeddi'r adroddiad, sef bod WEFO wedi cadarnhau bod y Cynllun Busnes yn

dderbyniol a bydd llythyr yn cadarnhau hyn ar fin cyrraedd. Bydd yn nodi y gall partneriaid y cynllun dracio eu gwariant, a hawlio'r cyllid, o 1 Mawrth.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd fod y math yma o brosiect yn sicrhau fod pobl ifanc bregus yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain, a bod arian Ewropeaidd yn gallu cyflawni a newid bywydau pobl.
- Holwyd a oedd targedau'r cynllun yn ddigon heriol – sef i wneud gwahaniaeth i fywydau dros hanner y cyfanswm o 450 o bobl ifanc y bydd y cynllun yn ceisio eu cyrraedd? Nodwyd bod angen i'r Cyngor weithiau fod yn ddigon mentrus i gychwyn ar ddull newydd o weithio a bod yn barod i fethu. Nod y cynllun fyddai gwneud gwahaniaeth i fywydau'r cyfanswm o 450.
- Pwysleisiwyd fod cost y pen yng Ngwynedd yn uwch na siroedd eraill Gogledd Cymru oherwydd natur ddaearyddol a gwasgaredig y sir. Mae costau cludiant er mwyn i'r unigolion gyrraedd y ddarpariaeth ac ar gyfer y gweithwyr o'r herwydd yn uwch.
- Nodwyd mai gwaith ataliol mae'r grant hwn yn dalu amdano. Mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall y gost tymor hir i wasanaethau cyhoeddus fod cymaint a £140,000 i bob unigolyn, ac felly bod gwario rhwng £3,000-£11,000 y pen dros 2-3 mlynedd yn gost effeithiol.
- Nodwyd fod Trac a Ad-Trac yn gweithio o fewn Fframwaith Ymgysylltu Cenedlaethol - ac wedi cyfnod tair blynedd yr ymyrraeth grant y bydd ymarfer da o'r gwaith yma yn cael ei wreiddio i mewn i'r Fframwaith Ymgysylltu.

## 10. MODEL LLYWODRAETHU RHANBARTHOL I WIREDDU'R WELEDIGAETH AR GYFER TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies

**PENDERFYNWYD**

I. Cefnogi'r model llywodraethu rhanbarthol a ffafrir- sef Cydbwyllgor statudol, i'w ddatblygu ymhellach
II. Cyfarwyddo swyddogion i weithio gyda chydweithwyr mewn cynghorau partner i ddatblygu cyfansoddiad manwl a chytundeb rhwng awdurdodau ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig gan ei gyflwyno er mwyn rhoi ystyriaeth i'r Cyngor ymrwymo i fodel Cydbwyllgor statudol gyda'r pum cyngor partner, o fewn tri mis cyntaf tymor newydd y Cyngor.
III. Nodi fod y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl sicrwydd o ran sefydlu Swyddfa Raglen/prosiect er mwyn cael dealltwriaeth o atebolrwydd, y strwythur a dull ariannu'r Swyddfa honno pan yn cymeradwyo unrhyw gyfansoddiad / cytundeb.

**TRAFODAETH**

Ym Medi 2016 bu i'r Cabinet gymeradwyo'r Weledigaeth ar Gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru. Nodwyd mai'r cam nesaf yw hwn, sef creu

Cydbwyllgor Statudol er mwyn llywodraethu ac i edrych sut i fynd ymlaen a'r gwaith. Pwysleisiwyd mai'r bwriad yw dod a'r cynllun ger bron y Cyngor Llawn newydd o fewn 3 mis.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd ei bod yn gyfle i warchod a datblygu ardaloedd unigryw sy'n cynnal yr economi mewn ffordd wahanol a chynnal cymunedau unigryw yng Ngwynedd
- dderbyn y model llywodraethu, holwyd am Adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith ee swyddfa Prosiect/rhaglen, a bod angen eglurder am yr Adnoddau ariannol ac Adnoddau dynol i gefnogi hynny. Nodwyd hefyd yr angen am arweinydd fyddai'n atebol am y prosiect yn ei gyfanrwydd.

**11. STRATEGAETH ARBEDION 2015/16 - 17/18 ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

A. Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 - 17/18.

B. Derbyn yn ffurfiol fod dau gynllun hanesyddol am ddisgyn yn fyr o'r targed arbedion sef:

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun 2013/14 | Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru | £29,684 |
| Cynllun 2014/15 | Galluogi | £121,000 |
| | **Cyfanswm Arbedion i'r Dileu** | **£150,684** |

C. Er mwyn cyflawni'r targed o £81,566 "Arbedion Trawsadrannol i'w Darganfod" yn 2016/17, cymeradwyo defnydd arbedion mae'r Adran Cyllid wedi eu gwireddu yn gynnar.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod yr adroddiad cynnydd yn drosolwg o'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y ddwy flynedd diwethaf. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb yr aelodau perthnasol o'r Cabinet yw gwireddu'r arbedion, gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau yn cadw trosolwg o'r darlun o'r arbedion yn ei gyfanrwydd.

Yn Strategaeth Ariannol 2016/17 mae £9,201,411 o arbedion wedi eu

cynllunio, sef 141 cynllun.

O’r 141 o’r cynlluniau adrannol mae 128 wedi eu gwireddu yn llawn neu yn rhannol. Rhagwelir y bydd 94% o arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu ar amser.

Mynegwyd fod angen dileu’r bwlch o £150,684 o ddau gynllun hanesyddol - “Galluogi” a “Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru”. Roedd y ddau gynllun wedi eu datblygu fel rhan o’r nod i adnabod £5m o arbedion Trawsadrannol, ond maent wedi cyflawni llai o arbedion nag oed wedi ei ragweld.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:

- Pwysleisiwyd fod gwaith arbennig wedi ei wneud ar draws y Cyngor i sicrhau gwireddu’r swm uchel o £9.2m. Diolchwyd i bawb am y gwaith arbennig sydd wedi bod ynghlwm â gwireddu’r arbedion hyn.
- Parhau i fonitro y sefyllfa y flwyddyn ariannol ganlynol.

## 12. CYFLENWADAU DŴR MANDDALIADAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Cyflawni’r gwaith uwchraddio cyflenwadau dŵr preifat mewn manddaliadau ar gost o hyd at £400,000 gan benderfynu ar ba ddull i’w ddefnyddio ar gyfer ei ariannu o’r 2 ddewis sydd ar gael, wrth sefydlu Cynllun Rheoli Asedau newydd y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod 42 o fanddaliadau ym mherchnogaeth y Cyngor ac mae 16 o’r rhain wedi eu lleoli mewn ardaloedd anghysbell, filltiroedd lawer o brif gyflenwadau dŵr cyhoeddus. Mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 2009 yn gosod safonau hylendid a ddisgwylir. Er mwyn cyrraedd y safonau hyn, mae’n angenrheidiol bwrw ymlaen gyda’r gwaith uwchraddio.
Nodwyd nad oes cyllid ar gael yn bresennol gan y Gwasanaeth Eiddo i wneud y gwaith anorfod yma. Ystyriwyd yr opsiynau cyllido fel a ganlyn:

- y stad man-ddaliadau, gan ystyried gwaredu o’r stad er mwyn ariannu
- blaenoriaethau’r rhaglen gyfalaf yn sgil sefydlu yr ail gynllun rheoli asedau, sy’n cael ei ystyried yn gyfredol.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:

- Nodwyd nad yw’r swm ar gyfer cyflawni y gwaith yn hollol glir hyd yma, ac ystyriwyd ei fod yn rhesymol gwneud eithriad y tro hwn i danysgrifio i un o’r opsiynau uchod yn hytrach nag adnabod ffynhonnell benodol er mwyn galluogi bwrw ymlaen gyda’r gwaith.

## 13. CYNNIG I BARHAU’R TREFNIANT O DDARPARU’R GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER CYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR

**YNYS MÔN AM 5 MLYNEDD BELLACH (2017-2022)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cynnig i barhau'r trefniant o ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn am 5 mlynedd bellach.

Rhoi'r awdurdod i Pennaeth Rheoleiddio a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i adolygu a chytuno ar gytundeb cydweithio newydd i ymestyn y cyfnod a chydweithio i gynnwys:

- Adolygu a chytuno ar drefniadau gweinyddu, gweithredu a rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Adolygu rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel corff trawsffiniol ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet am gymeradwyaeth.

**TRAFODAETH**

Mae Gwynedd a Môn wedi bod yn cydweithio ar ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ers pum mlynedd bellach, ond mae'r cytundeb gwreiddiol yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn, neu wedi i'r cynllun gael ei fabwysiadu gan y ddau awdurdod, pa bynnag un fydd gynharaf. Bydd gwaith angenrheidiol yn parhau yn dilyn mabwysiadu'r cynllun er mwyn ei fonitro a'i adolygu ayyb.

Cafwyd adolygiad o'r gwaith a nodwyd fod y model cydweithio wedi torri tir newydd yn y maes polisi cynllunio ac mae'r model yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel esiampl y dylai Awdurdodau Cynllunio eraill fod yn ei ystyried. Nodwyd yn ogystal fod y prosiect wedi gwneud arbediad o £600,000 rhwng y ddau Awdurdod.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd am niferoedd staffio yn lleihau, ac esboniwyd fod proffil staffio yn cyd-fynd â phroffil y gwaith sydd i'w gyflawni gan yr uned.

**14. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Roberts

**PENDERFYNWYD**

a) Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
b) Cymeradwyo ail broffilio gwireddu pedwar o'r cynlluniau arbedion fel a ganlyn:

| Cyf | Cynllun | Proffil | Proffil Amgen |
|---|---|---|---|

| | | Presennol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017/18 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| OED22 | Ystyried Tai Gwarchod/TGY fel llety amgen i wlâu preswyl | 200,000 | | 120,000 | 80,000 |
| OED25 | Adolygu Pecynnau cinio/te | 100,000 | 25,000 | 75,000 | |
| OED34 | Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes | 113,000 | 38,000 | 75,000 | |
| C2 | Dileu 2 swydd allan o 7.5 yn yr Uned cefnogi Systemau o fewn y Gwasanaeth Oedolion (Toriad) | 60,0000 | | 60,000 | |
| | Cyfanswm | 473,000 | 63,000 | 330,000 | 80,000 |

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod yr adran yn datblygu, fod newidiadau yn gwreiddio ac fod effaith y newidiadau yn cael eu teimlo yn raddol.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at ambell brosiect, gan gynnwys gweithio yn integredig a phrosiect Llys Cadfan. Mae prosiect Llys Cadfan yn brosiect cyffrous sy'n gweithio tu allan i'r bocs. Pwrpas y prosiect yw rhoi cefnogaeth yn fwy lleol i bobl yn ne'r Sir.
Tynnwyd sylw at fesurau perfformiad ac yn benodol at "bobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt" - mae'n fesur newydd i'r adran ac mae 57%yn teimlo eu bod yn gallu gwneud beth sy'n bwysig iddynt.

Nodwyd fod swm y gorwariant wedi gostwng o £168,000 i oddeutu £88,000.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd y disgwylir adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion gan (AGGCC) yn ystod yr wythnosau nesaf.

Tynnwyd sylw at Fesur 5.7 - "cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol" - nodwyd fod trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd er mwyn ceisio gwella y sefyllfa.

**15. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PLANT, POBL IFANC A HAMDDEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards yn absenoldeb Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod yr adroddiad cynhwysfawr sy'n nodi'r prosiectau yn y cynllun strategol. Pwysleisiwyd fod gwaith yn parhau gyda rhannau o'r gwasanaeth ieuenctid a hamdden i drawsffurfio a datblygu ar gyfer y dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd am adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf er mwyn esbonio os oes gwahaniaeth wedi digwydd i fywydau'r bobl ifanc sydd wedi derbyn achrediadau gan y gwasanaeth ieuenctid, ac ym mha ffordd y mae'r achrediadau wedi gwneud gwahaniaeth.
- Gofynnwyd am esboniad am y gwa~~i~~haniaeth yn y ffigurau am yr achrediadau gan y gwasanaeth ieuenctid gan nad oedd eglurder llawn.
- Cynnydd wedi bod mewn plant sydd mewn gofal – cafwyd cadarnhad fod gwaith yn cael ei wneud, ac y bydd adroddiad yn mynd i'r Tîm Arweinyddiaeth.

## 16. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADNODDAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwyo ail broffilio'r Cynllun Peidio Talu'r ffi am dalu Treth Cyngor yn y Swyddfa Bost i 2018/19 yn hytrach na 2017/18 fel y bwriad gwreiddiol

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod 12 adolygiad gwasanaeth wedi eu cwblhau, yn ogystal a rhaglen hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr Cynhelir sesiynau hyfforddiant mewnol pellach ar gyfer Rheolwyr o fis Ebill ymlaen, ac awgrymwyd y byddai o fudd i Aelodau Cabinet newydd fynychu'r sesiynau yma.

Nodwyd fod her mewn gwireddu cynllun toriad rhif 13 (peidio talu ffi am dalu Treth Cyngor yn y Swyddfa Bost) ac o ganlyniad bydd angen gwaith ymchwil pellach ar y prosiect hwn, ac felly angen ail broffilio'r arbediad i'w wireddu yn 2018/19.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd am system ffeilio electroneg (EDRMS) – esboniwyd ei fod yn system newydd ar gyfer ffeilio yn electroneg, sydd yn lleihau y nifer ffeiliau sy'n cael eu cadw gan geisio sicrhau cadw'r ffeiliau hanfodol yn unig.
- Nodwyd fod % dyddiau salwch yn cynyddu (er yn gymharol isel ar lefel Cymru) - a nodwyd fod nifer o'r rhain yn salwch tymor hir.

## 17. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI, GOFAL CWSMER A LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod tai fforddiadwy yn brosiect sydd yn mynd rhagddo gan gydweithio gyda Grŵp Cynefin. Mae gwaith yn cael ei wneud ym Mhenygroes, Waunfawr, Llanuwchllyn a Bethesda.

Mynegwyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y cyfeiriadau i'r Uned Ddigartrefedd, ac mae dirywiad yn y mesuriadau perfformiad. Ond mae gwaith yn cael ei wneud i geisio ymateb i'r angen.

Nodwyd fod y Cyngor wedi cytuno i dderbyn 40 o ffoaduriaid rhwng 2016-20. Gobeithir erbyn mis Ebrill eleni y bydd ugain o ffoaduriaid wedi eu derbyn i'r sir ac wedi lletya yng Ngogledd y Sir.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Cywiriad i'w nodi yn % marwolaethau wedi eu cofrestru o fewn 5 diwrnod - angen ei gywiro o 5% i 95%

## 18. BLAENRAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyd y Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:

- Cyng. Gareth Thomas – Newid enw'r Aelod Cabinet yn yr eitem Cyflwyniad gan Ffion Johnstone.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 15:35

**CADEIRYDD**

Eitem 6

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28ain o Fawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Catrin Thomas, Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 913 (32913)** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Peiriannau Hunan Wasanaeth Llyfrgell** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo cais am £74,412 o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer prynu a mewnosod 9 peiriant hunan wasanaeth yn y 9 prif lyfrgell.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae ymrywmo adnoddau o'r Gronfa Trawsffurfio yn fater i'r Cabinet.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau 2016-2020"ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell. Mae'r Strategaeth honno yn arwain at newid yn y ddarpariaeth lyfrgell drwy'r awdurdod sef symud o ddarparu 17 llyfrgell i gynnal 9 prif lyfrgell a chefnogi 4 llyfrgell gymunedol.

3.2 Bydd y newidiadau hyn yn arwain at ddefnydd uwch o'r prif lyfrgelloedd ond gyda'r un lefel staffio.

3.3 Mae'r cais hwn am beiriannau hunanwasanaeth yn gyfle i uchafu'r newid sy'n dod drwy wella'r gwasanaeth i'r trigolyn a gwneud gwell defnydd o amser staff i'w gwasanaethu.

### 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae Safonau Cenedlaethol ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn nodi y dylai pob awdurdod llyfrgell sicrhau lefel staffio o 3.6 (cyfwerth ag amser llawn) am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl er mwyn bod a'r adnodd priodol ar gyfer cyflawni dyletswyddau disgwyliedig i drigolion. Y lefel yng Ngwynedd Gwynedd ym Mawrth 2016 oed 2.86 - 20% yn is na'r safon. Byddai buddsoddiad refeniw i gyrraedd y safon, sef bod gyda digon o staff i gyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n ddisgwyliedig ohonynt, yn gost flynyddol o £75,442. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol nid yw cais am adnoddau refeniw ychwanegol yn ddefnydd darbodus o adnoddau prin.

4.2 Mae'r cais hwn felly am adnoddau cyfalaf £74,412 un tro i ddatblygu'r gwasanaeth ac i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r lefel staffio presennol.

4.3 Bydd yr arian cyfalaf yn prynu naw peiriant hunan wasanaeth gyda'r dechnoleg RFID (Radio-frequency identification) i sganio llyfrau/ eitemau ar gyfer eu benthyg / dychwelyd yn gyflymach ac yn cynnig opsiynau taliadau electroneg.

4.4 Bydd y Peiriannau Hunan Wasanaeth yn arwain at system gweinyddu llyfrau mwy effeithlon (sef benthyg a dychwelyd llyfr).

- Mae staff rheng flaen llyfrgelloedd wrth gyflawni'r tasgau benthyciadau a dychweliadau yn ymdrin â dros filiwn o eitemau mewn blwyddyn (1,098,252 yn 2015/16). Gydag oddeutu 20 (c.ll.a.) o staff rheng flaen mae hynny yn golygu fod pob aelod o staff yn ymdrin â dros fil o eitemau mewn wythnos gwaith ar gyfartaledd.
- Gall % uchel o'r trafodion hyn fod yn hunan wasanaeth gan y defnyddiwr
- Yn dilyn ymarferiad syml yn Llyfrgelloedd Porthmadog, Penygroes a Chaernarfon nododd defnyddwyr i'r llyfrgelloedd hynny mai'r hyn sydd y bwysig iddynt wrth fenthyg a dychwelyd eitemau yw osgoi amser aros.
- Bydd y peiriannau hunanwasanaeth yn lleihau'r amser disgwyl i ddefnyddwyr i ddychwelyd llyfrau, ac i fenthyg llyfrau yn rhwydd.

4.5 Bydd y Peiriannau Hunan Wasanaeth yn arwain at well defnydd o adnoddau staff. Bydd rhyddhau'r staff rheng flaen o dasgau trafodion yn rhoi mwy o amser iddynt gefnogi defnyddwyr gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt megis :-

- Delio gydag ymholiadau mwy cymhleth (mae'r staff ar hyn o bryd yn delio gyda dros 60,000 o ymholiadau yn flynyddol);
- Cefnogi trigolion i gyrchu gwybodaeth;
- Cefnogi trigolion gyda defnyddio'r cyfrifiaduron a thabledi (sydd dros 100,000 o sesiynau'r flwyddyn);
- Trefnu a chynnal gweithgareddau iechyd a lles, gweithgareddau llythrennedd, a llythrennedd digidol ( bu i dros 27,000 o drigolion fynychu gweithgaredd yn ein llyfrgelloedd yn ystod 2015-16).

4.6 Mae 'astudiaethau achos' a gesglir gan y gwasanaeth i'r Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgell yn nodi gwerth ac effaith y gweithgareddau a drefnir - canmolwyd y dystiolaeth hon yn yr Asesiad ond nodwyd hefyd fod lefel y gweithgarwch yng Ngwynedd yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

4.7 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn casglu sylwadau a mesur barn defnyddwyr yn rheolaidd a thema gyson yn yr atebion derbynnir yw'r angen am weithgareddau ym mhob llyfrgell ac yn benodol ym meysydd llythrennedd digidol ac iechyd a lles.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Bwriedir prynu, mewnosod a defnyddio'r peiriannu hunan wasanaeth yn y 9 prif lyfrgell o fis Medi 2017 ymlaen.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Sylwadau'r Prif Swyddogion

**Y Prif Weithredwr**

"Mae'r buddsoddiad sydd yn cael ei argymell yn un synhwyrol gan ei fod yn cynnig cyfle i uchafu'r newid sy'n dod drwy wella'r gwasanaeth i'r trigolion a gwneud gwell defnydd o amser staff i'w gwasanaethu."

**Y Prif Swyddog Cyllid**

"Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd "bidiau" am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau'r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i'w hariannu a'u comisiynu drwy drefn y 'Cynllun Strategol'. Mater i aelodau'r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i'r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd y Cabinet am gymeradwyaeth eto.

Cadarnhaf fod y swm un-tro o £74,412 sy'n paragraff 4.2 yn amcangyfrif teg o gost cyfalaf prynu a mewnosod y peiriannau RFID."

**Y Swyddog Monitro**

"Dim sylwdau o safbwynt priodoldeb".

EITEM 7 - CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 - CEISIADAU AM ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae'r adroddiadau wedi eu rhestru fel atodiadau 7.1 – 7.4

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet dros Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| **Swyddog Cyswllt:** | Catrin Thomas<br>Uwch-reolwr Dysgu Cymunedol, Adran Economi a Chymuned |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679913 (32913) |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2017-18:<br>adnoddau i ymestyn y cynllun 'Cydymdrechu yn erbyn tlodi' (prosiect E3)** |

**1. PENDERFYNIAD A GEISIR**

Ymrwymo £155,138 o gyllid ychwanegol, a pharhau'r gweddillion y cyllid sydd eisoes wedi ei ddyrannu, ar gyfer ymestyn y cynllun 'Cydymdrechu yn erbyn tlodi' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18..

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae ymrwymo adnoddau o'r Gronfa Trawsffurfio yn fater i'r Cabinet.

**3. CYFLWYNIAD**

Mabwysiadodd y Cyngor llawn, 'Cynllun y Cyngor 2017-18' ar yr 2il o Fawrth 2017.

Adnabuwyd y cynllun 'Cydymdrechu yn erbyn tlodi' fel un o'r cynlluniau i wella oedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau os y'i hymestynnir am flwyddyn ychwanegol.

Cafodd 'Cydymdrechu yn erbyn tlodi' ei gynnwys yn rhan o Gynllun y Cyngor felly yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w ariannu.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas y prosiect yw gweithredu rhaglen o gynlluniau i drechu tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymyraethau sy'n helpu trigolion i gael sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, ac sy'n eu helpu i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein.

Mae'r prosiect yn cynnwys rhaglen o ymyraethau yn y meysydd canlynol:

1. *Darparu'r sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm yn y cartref a dyledion*
2. *Darparu'r sgiliau i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein*
3. *Darparu'r sgiliau i gael mynediad at waith ac i atal segurdod economaidd*

Dyma grynhoi uchafbwyntiau a phrif ddeilliannau'r prosiect hyd yn hyn:

- Dwyn ynghyd 17 o bartneriaid ar draws Wynedd, o'r sector breifat, cyhoeddus a gwirfoddol gan sefydlu a chynnal Grŵp Llywio Gwytnwch Digidol, Fforwm Ariannol a Grŵp Cyflogaeth sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn ceisio annog cydweithio, cydlynu darpariaeth a lleihau dyblygu
- Llunio a mabwysiadu Rhaglen Waith Gwrth Dlodi Gwynedd wedi ei selio ar dargedu grwpiau o drigolion ynghyd a chymunedau sydd yn dioddef fwyaf o dlodi ar hyn o bryd, neu'n sy'n debygol o ddioddef tlodi oherwydd y newidiadau sydd i ddod yn y gyfundrefn les. Mae'r Rhaglen waith yn cefnogi gwasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid i flaenoriaethu ymyraethau i dargedu'r grwpiau / cymunedau hyn
- Sicrhau £116,745 o arian Loteri Fawr drwy'r elusen genedlaethol Citizens Online er mwyn gweithredu prosiect Gwytnwch Digidol (Gwynedd yn un o bedwar lleoliad ledled y DU yn rhan o'r cynllun). Drwy'r rhaglen mae 143 o staff rheng flaen y Cyngor a sefydliadau lleol megis y Cymdeithasau Tai, wedi eu hyfforddi i gefnogi eraill i gychwyn defnyddio'r we a 265 o sesiynau cymorth i drigolion wedi eu cynnal ledled y sir (amcangyfrifir fod dros 500 o bobl yr wythnos bellach yn derbyn cymorth).
- 118 o staff rheng flaen y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cymdeithasau Tai wedi eu hyfforddi i gefnogi trigolion rheoli eu harian ac ymdopi a dyled gyda 1.285 o drigolion wedi eu cefnogi i gyflwyno cais Tal Tai Dewisol. Drwy weithio gyda Chyngor ar Bopeth yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf amcangyfrifir fod dros £300,000 o ddyledion wedi eu rheoli a dros £600,000 o incwm ychwanegol wedi ei sicrhau.
- Datblygu cynlluniau cyflogaeth sirol (TRAC, Ad-TRAC, OPUS a Cymunedau i Waith); datblygu trefniadau tracio a throsglwyddo cleientiaid rhwng cynlluniau a threfniadau cyfeirio gyda rhaglenni'r Adran Waith a Phensiynau (PACE, Y Rhaglen Waith ac ati). Denwyd £2.8M hyd yn hyn o arian Ewrop i'r sir i gefnogi'r cynlluniau gyda 86 o unigolion bellach wedi elwa (bydd y cynlluniau yn weithredol hyd at 2020).
- Cyfathrebu ag unigolion a theuluoedd a'u heffeithir gan y newidiadau yn y gyfundrefn lles i'w hysbysu a chynnig cymorth ynghyd â datblygu polisi Tal Tai Dewisol i'r Cyngor i gyd-fynd gyda'r grwpiau a effeithir.

Byddai sicrhau'r adnoddau er mwyn ymestyn y cynllun yn cyflawni'r canlynol erbyn Mawrth 2018 :

- Parhau i hyfforddi staff rheng flaen mewn llythrennedd ariannol a digidol
- Parhau i weithredu'r gronfa Tâl Ddewisol Tai er mwyn cefnogi teuluoedd i osgoi mynd i ddyled oherwydd y dreth llofftydd
- Darparu cymorth hawlwyr y Credyd Cynhwysol
- Gweithredu pecyn o gynlluniau cyflogaeth i gefnogi unigolion i gael mynediad i gyfleoedd gwaith

Bydd derbyn cyllid pellach gan y Cyngor i gyd-fynd â chyfnod newydd y cynllun strategol yn caniatáu parhad cyflogaeth y tîm swyddogion sy'n gwireddu'r cynllun a chynnal gweithgaredd y Cyngor yn y maes. Bydd yr Adran Economi a Chymuned, yn unol â'i arfer, hefyd yn chwilio i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor i ddenu arian gan eraill megis Llywodraeth Cymru a'r Loteri Fawr i gynyddu ac ymestyn ein hymdrechion yn y maes.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Petai'r Cabinet yn ymrwymo adnoddau pellach i'r cynllun, bydd yn parhau hyd at ddiwedd Cynllun y Cyngor 2017-18 ar 31 Mawrth 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd yn anffurfiol ag aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion ynglŷn â pharhad y cynllun cyn cyflwyno'r mater i'r Cabinet am benderfyniad.

**Sylwadau'r Prif Swyddogion**

**Y Prif Weithredwr**

> 'Mae pedwar cais am arian ynghlwm â'r papurau hyn, oll yn ymwneud ag ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol newydd. Yn amlwg, mae dau yn gymharol fychan a dau ohonynt yn fwy. Yn amlwg, y nod gyda chynlluniau o'r fath yw y dylid ceisio eu hariannu o arian sydd eisoes yn ei le. Deallaf nad oes adnoddau ar gael ar gyfer y gofynion hyn. Fodd bynnag, awgrymir dyrannu'r arian hwn am flwyddyn yn unig er mwyn adolygu a ellir ail-gyfeirio adnoddau mwy parhaol ar gyfer gofynion y cynlluniau hyn os oes angen eu parhau ar ôl i'r adnoddau unwaith ac am byth sydd ar gael ddod i ben.'

**Y Prif Swyddog Cyllid**

‘Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau’r Cabinet fydd blaenoriaethau’r ceisiadau perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd “bidiau” am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau’r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i’w hariannu a’u comisiynu drwy drefn y ‘Cynllun Strategol’. Mater i aelodau’r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu’r defnydd o’r Gronfa Trawsffurfio i’r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i’r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu’r cynlluniau sydd wedi’u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd y Cabinet am gymeradwyaeth eto.’

**Y Swyddog Monitro**

‘Fel y nodir yn yr adroddiad mae’r argymhellion yma yn deillio o ymrwymiadau sydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-18 ac yn gynigion priodol a rhesymegol’

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies<br>Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Adran Economi a Chymuned |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679611 (32611) |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2017-18:<br>adnoddau i ymestyn y cynllun 'Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd' (prosiect E2)** |

### 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

Ymrwymo £117,000 o gyllid ychwanegol, a pharhau'r gweddillion y cyllid sydd eisoes wedi ei ddyrannu, ar gyfer ymestyn y cynllun 'Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18..

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae ymrwymo adnoddau o'r Gronfa Trawsffurfio yn fater i'r Cabinet.

### 3. CYFLWYNIAD

Mabwysiadodd y Cyngor llawn, 'Cynllun y Cyngor 2017-18' ar yr 2il o Fawrth 2017.

Adnabuwyd y cynllun 'Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd' fel un o'r cynlluniau i wella oedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau os y'i hymestynnir am flwyddyn ychwanegol.

Cafodd 'Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd' ei gynnwys yn rhan o Gynllun y Cyngor felly yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w ariannu.

### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pwrpas y cynllun yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yng Ngwynedd gan ymateb i gyfartaledd isel cyflogau yn y sir.

Mae'r prosiect yn:

1. *Denu mewnfuddsoddiad o ansawdd i'r sir* drwy hyrwyddo a marchnata Gwynedd i sectorau penodol; magu perthynas a darparu cefnogaeth arbenigol i ddarpar fuddsoddwyr a lobio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cefnogi buddsoddiad yng Ngwynedd.
2. *Cefnogi busnesau cynhenid i sefydlu a thyfu* o fewn sectorau gwerth uwch drwy ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i fusnesau a hyrwyddo'r ddarpariaeth gan eraill megis Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi busnesau lleol i rwydweithio a chydweithio i atgyfnerthu eu sectorau.
3. *Sicrhau fod y sgiliau cywir o fewn y gweithlu lleol* i gael gwaith sy'n talu'n dda o fewn y sectorau gwerth uwch drwy hwyluso datblygu cysylltiadau rhwng busnesau a sefydliadau addysg (ysgolion, uwch a phellach).

Dyma grynhoi uchafbwyntiau a phrif ddeilliannau'r prosiect hyd yn hyn:

- Sicrhau dynodi safleoedd atomfa Trawsfynydd a maes awyr Llanbedr yn Ardal Fenter Eryri gan Lywodraeth Cymru (yn un o ddim ond wyth Ardal Fenter yng Nghymru).
- Sicrhau parhad di-dor y rhaglen dadgomisiynnu yn Atomfa Trawsfynydd gan warchod 250 o swyddi gwerth uwch am gyfnod estynedig.
- Sicrhau dros £1.5m o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, a buddsoddwyr preifat yn isadeiledd maes awyr Llanbedr (Canolfan Awyrofod Eryri) a datblygiad cynlluniau pellach i fuddsoddi'n sylweddol yn y safle gan gynnwys sicrhau mynedfa newydd.
- Sicrhau dynodiad Canolfan Awyrofod Eryri yn un o 6 o safleoedd a ffafrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer sefydlu porth gofod.
- Cefnogi sefydlu a datblygu rhwydweithiau busnes yn y sectorau digidol (Tec Gogledd Cymru a Grŵp Busnesau Technoleg Parc Menai) a'r diwydiannau creadigol (Gogledd Creadigol), sydd yn dwyn dros 200 o fusnesau ynghyd.
- Sbarduno'r cynllun 'Byw a Bod Digidol' gan Arloesi Gwynedd Wledig i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc Gwynedd o fewn y sector digidol yn y sir.
- Datblygu gwedd newydd o'r cynllun Llwyddo'n Lleol fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i astudio pynciau yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg.
- Er yn gynllun hirdymor, rydym eisoes wedi cefnogi dros 100 o ddarpar fuddsoddwyr yn y sir gan arwain at greu 76 o swyddi gwerth uwch ledled Gwynedd.

Byddai sicrhau'r adnoddau i ymestyn y cynllun yn cyflawni'r canlynol erbyn Mawrth

2018:

- Datblygu'r pecyn o weithgareddau arloesol i ddenu mewnfuddsoddiad i Wynedd, drwy dargedu busnesau o fewn y sectorau arwyddocaol sydd wedi'u hadnabod gan roi sylw arbennig i safleoedd Ardal Fenter Eryri yn Nhrawsfynydd a Llanbedr
- Cefnogi nifer o ddarpar fuddsoddwyr gan sicrhau'r budd mwyaf i Wynedd o'r datblygiadau
- Datblygu'r clystyrau busnes yn y sectorau targed a adnabuwyd
- Dechrau gweithredu rhaglen newydd i gefnogi pobl ifanc i astudio pynciau yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg o dan faner Llwyddo'n Lleol
- Cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r rhaglen Ynys Ynni er mwyn sicrhau budd i bobl Gwynedd o ddatblygu Wylfa Newydd

Mae dros 2,000 o swyddi gwerth uwch ynghlwm â'r datblygiadau rydym yn gweithio i ddenu i'r sir yn y tymor canolig / hir.

Bydd derbyn cyllid pellach gan y Cyngor i gyd-fynd â chyfnod newydd y cynllun strategol, yn caniatáu parhad cyflogaeth y tîm swyddogion sy'n gwireddu'r cynllun, cynnal gwasanaeth yr arbenigwyr maes sy'n cefnogi buddsoddwyr arfaethedig yng Ngwynedd a pharhad ein hymdrechion i ddenu buddsoddiad pellach i'r sir. Bydd yr Adran Economi a Chymuned, yn unol â'i arfer, hefyd yn chwilio i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor i ddenu arian gan eraill megis Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Dadgomisiynnu Niwclear i gynyddu ac ymestyn ein hymdrechion yn y maes.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Petai'r Cabinet yn ymrwymo adnoddau pellach i'r cynllun, bydd yn parhau hyd at ddiwedd Cynllun y Cyngor 2017-18 ar 31 Mawrth 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd yn anffurfiol ag aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion ynglŷn â pharhad y cynllun cyn cyflwyno'r mater i'r Cabinet am benderfyniad.

### Sylwadau'r Prif Swyddogion

### Y Prif Weithredwr

'Mae pedwar cais am arian ynghlwm â'r papurau hyn, oll yn ymwneud ag ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol newydd. Yn amlwg, mae dau yn gymharol fychan

a dau ohonynt yn fwy. Yn amlwg, y nod gyda chynlluniau o'r fath yw y dylid ceisio eu hariannu o arian sydd eisoes yn ei le. Deallaf nad oes adnoddau ar gael ar gyfer y gofynion hyn. Fodd bynnag, awgrymir dyrannu'r arian hwn am flwyddyn yn unig er mwyn adolygu a ellir ail-gyfeirio adnoddau mwy parhaol ar gyfer gofynion y cynlluniau hyn os oes angen eu parhau ar ôl i'r adnoddau unwaith ac am byth sydd ar gael ddod i ben.'

**Y Prif Swyddog Cyllid**

'Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2$^{il}$ o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd "bidiau" am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau'r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i'w hariannu a'u comisiynu drwy drefn y 'Cynllun Strategol'. Mater i aelodau'r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i'r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd y Cabinet am gymeradwyaeth eto.'

**Y Swyddog Monitro**

'Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r argymhellion yma yn deillio o ymrwymiadau sydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-18 ac yn gynigion priodol a rhesymegol'

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies<br>Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Adran Economi a Chymuned |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679611 (32611) |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2017-18:<br>adnoddau i ymestyn Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig (prosiect E6)** |

**1. PENDERFYNIAD A GEISIR**

Ymrwymo £23,000 o gyllid ychwanegol, a pharhau'r gweddillion y cyllid sydd eisoes wedi ei ddyrannu, ar gyfer ymestyn Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18..

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AN BENDERFYNIAD**

Mae ymrwymo adnoddau o'r Gronfa Trawsffurfio yn fater i'r Cabinet.

**3. CYFLWYNIAD**

Mabwysiadodd y Cyngor llawn, 'Cynllun y Cyngor 2017-18' ar yr 2il o Fawrth 2017.

Adnabuwyd y Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig fel un o'r cynlluniau i wella oedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau os y'i hymestynnir am flwyddyn ychwanegol.

Cafodd Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig ei gynnwys yn rhan o Gynllun y Cyngor felly yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w ariannu.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas y prosiect yw cynyddu cynaladwyedd cymunedau gwledig Gwynedd a'r ardaloedd mwyaf gwledig yn benodol – gan roi sylw arbennig i ddatblygu ystod a gwerth gweithgaredd economaidd yng nghefn gwlad.

Mae'r prosiect yn:

1. *Ymateb i anghenion arbennig Gwynedd wledig* drwy wirio cynllluniau'r Cyngor ac eraill i ymateb i anghenion yr economi a chymunedau cefn gwald.
2. *Arwain ar gyswllt / mewnbwn y Cyngor i'r rhaglen LEADER yn y sir* (Arloesi Gwynedd Wledig) gan sicrhau fod y rhaglen yn plethu gyda, ac yn cyflawni, amcanion Cyngor Gwynedd.
3. *Datblygu a chynnal Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd a Chynllun Cyflogaeth Meirionnydd* ynghyd â Grŵp Prosiect i'r Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig sy'n dwyn y prif rhanddeiliaid yn yr economi wledig ynghyd
4. *Datblygu cynlluniau mewn ymateb i anghenion Gwynedd wledig* gan dargedu adnoddau i'w gwireddu o Raglen Datblygu Gwledig Cymru a ffynonellau eraill.
5. *Lobio a dylanwadu* yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddwyn sylw i anghenion arbennig yr economi a chymunedau gwledig.

Dyma grynhoi uchafbwyntiau a phrif ddeilliannau'r prosiect hyd yn hyn:

- Llunio a mabwysiadu Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd a sefydlu grŵp prosiect yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig i arwain ar yr agenda wledig yn sirol.
- Gwarantu fod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu siroedd mwyaf gweledig Cymru wrth ddyrannu adnoddau LEADER; gan arwain at sicrhau fod £4M ar gael yng Ngwynedd i ddatblygu a threialu dulliau arloesol o gwrdd ag anghenion cymunedau cefn gwlad y sir.
- Sefydlu Arloesi Gwynedd Wledig i weithredu LEADER yn y sir. Erbyn diwedd 2016 roedd 24 o dreialon i brofi cynlluniau arloesol i ymateb i heriau cefn gwald wedi eu cynnal / yn weithredol (wele fideo o uchafbwyntiau 2016 - hyperddolen).
- Cyflwyno 5 o geisiadau am adnoddau pellach i Raglen Datblygu Gwledig Cymru gan dargedu £800k o fuddsoddiad i gefnogi economi gwledig y sir.
- Cefnogi ceisiadau gan yr Adran Cefnogaeth Corfforaeth a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant am adnoddau o Raglen Datblygu Gwledig Cymru.
- Sicrhau fod diwydiant pysgota a chymunedau arfordirol Gwynedd yn gymwys i elwa o Gronfa Pysgodfeydd Cymru 2014-2020.
- Cyflwyno mewnbwn Gwynedd i ranbarthol a chenedlaethol i ddyfodol cefnogaeth i amaeth a datblygu gwledig yn dilyn y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Byddai sicrhau'r adnoddau i ymestyn y cynllun yn cyflawni'r canlynol erbyn Mawrth

2018:

- Datblygu gwaith Arloesi Gwynedd Wledig gan ddatblygu a chynnal treialon arloesol ar hyd a lled Gwynedd a thargedu adnoddau i adeiladu ar ganlyniadau'r 24 o dreialon sydd eisoes wedi eu cynnal.
- Gweithio gyda phartneriaid megis Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig a'r gymuned fusnes i ddatblygu prosiectau pellach a sicrhau adnoddau i'w gweithredu.

Bydd derbyn cyllid pellach gan y Cyngor i gyd-fynd â chyfnod newydd y cynllun strategol, yn caniatáu parhad cyflogaeth y swyddog sy'n gwireddu'r cynllun a'n hymdrechion i sicrhau adfywio economi gwledig y sir. Bydd yr Adran Economi a Chymuned, yn unol â'i arfer, hefyd yn chwilio i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor i ddenu arian gan eraill megis Llywodraeth Cymru i gynyddu ac ymestyn ein hymdrechion yn y maes.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Petai'r Cabinet yn ymrwymo adnoddau pellach i'r cynllun, bydd yn parhau hyd at ddiwedd Cynllun y Cyngor 2017-18 ar 31 Mawrth 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd yn anffurfiol ag aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion ynglŷn â pharhad y cynllun cyn cyflwyno'r mater i'r Cabinet am benderfyniad.

**Sylwadau'r Prif Swyddogion**

**Y Prif Weithredwr**

'Mae pedwar cais am arian ynghlwm â'r papurau hyn, oll yn ymwneud ag ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol newydd. Yn amlwg, mae dau yn gymharol fychan a dau ohonynt yn fwy. Yn amlwg, y nod gyda chynlluniau o'r fath yw y dylid ceisio eu hariannu o arian sydd eisoes yn ei le. Deallaf nad oes adnoddau ar gael ar gyfer y gofynion hyn. Fodd bynnag, awgrymir dyrannu'r arian hwn am flwyddyn yn unig er mwyn adolygu a ellir ail-gyfeirio adnoddau mwy parhaol ar gyfer gofynion y cynlluniau hyn os oes angen eu parhau ar ôl i'r adnoddau unwaith ac am byth sydd ar gael ddod i ben.'

**Y Prif Swyddog Cyllid**

'Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa

Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2[il] o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd "bidiau" am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau'r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i'w hariannu a'u comisiynu drwy drefn y 'Cynllun Strategol'. Mater i aelodau'r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i'r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd y Cabinet am gymeradwyaeth eto.'

**Y Swyddog Monitro**

'Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r argymhellion yma yn deillio o ymrwymiadau sydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-18 ac yn gynigion priodol a rhesymegol'

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies<br>Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Adran Economi a Chymuned |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679611 (32611) |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2017-18:<br>adnoddau i ymestyn y cynllun 'Digwyddiadau proffil uchel a strategol' (prosiect E8)** |

### 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

Ymrwymo £42,000 o gyllid ychwanegol, a pharhau'r gweddillion y cyllid sydd eisoes wedi ei ddyrannu, ar gyfer ymestyn y cynllun 'Digwyddiadau proffil uchel a strategol' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AN BENDERFYNIAD

Mae ymrwymo adnoddau o'r Gronfa Trawsffurfio yn fater i'r Cabinet.

### 3. CYFLWYNIAD

Mabwysiadodd y Cyngor llawn, 'Cynllun y Cyngor 2017-18' ar yr 2il o Fawrth 2017.

Adnabuwyd y cynllun 'Digwyddiadau proffil uchel a strategol' fel un o'r cynlluniau i wella oedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau os y'i hymestynnir am flwyddyn ychwanegol.

Cafodd y cynllun 'Digwyddiadau proffil uchel a strategol' ei gynnwys yn rhan o Gynllun y Cyngor felly yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w ariannu.

### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.

Mae'r prosiect darparu nawdd ariannol cymedrol i ddenu a chynnal digwyddiadau proffil uchel a strategol yng Ngwynedd gan ategu'r gefnogaeth ymarferol a ddarperir i drefnwyr digwyddiadau gan y Cyngor.

Dyma grynhoi uchafbwyntiau a phrif ddeilliannau'r prosiect hyd yn hyn:

- 30 o ddigwyddiadau wedi eu cefnogi gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau sy'n newydd i'r sir megis y Red Bull Hardline yn Ninas Mawddwy (hyperddolen).
- £98,000 o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi digwyddiadau mawrion wedi ei ddenu
- Dros 129,000 wedi mynychu'r digwyddiadau a gefnogwyd.
- £2.45M o wariant yn uniongyrchol yng Ngwynedd gan drefnwyr digwyddiadau (20% o'u cyfanswm gwariant)
- 780 o fusnesau yn y sir wedi elwa gan ddiogelu 835 o swyddi.
- Oddeutu £18.96M o fudd economaidd i Wynedd wedi ei gynhyrchu gan y digwyddiadau.
- Cyhoeddusrwydd a marchnata cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol am ddim.
- Newid yng nghanfyddiadau ymwelwyr a thrigolion lleol (pobl ifanc yn arbennig) o'r sir fel lleoliad bywiog, egnïol a chyfoes.

Byddai sicrhau'r adnoddau i ymestyn y cynllun yn cyflawni'r canlynol erbyn Mawrth 2018:

- Gweithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i fusnesau a thrigolion Gwynedd
- Gweithio'n agos gydag Uned Digwyddiadau Mawr Lywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth
- Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau

Mae 17 o ddigwyddiadau yn 2017 eisoes wedi holi'r Cyngor am gymorth.

Bydd derbyn cyllid pellach gan y Cyngor, i gyd-fynd â chyfnod newydd y cynllun strategol, yn caniatáu parhad y gefnogaeth ariannol i ddenu a chefnogi digwyddiadau mawr a strategol yng Ngwynedd.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Petai'r Cabinet yn ymrwymo adnoddau pellach i'r cynllun, bydd yn parhau hyd at ddiwedd Cynllun y Cyngor 2017-18 ar 31 Mawrth 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd yn anffurfiol ag aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion ynglŷn â pharhad y cynllun cyn cyflwyno'r mater i'r Cabinet am benderfyniad.

**Sylwadau'r Prif Swyddogion**

**Y Prif Weithredwr**

'Mae pedwar cais am arian ynghlwm â'r papurau hyn, oll yn ymwneud ag ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol newydd. Yn amlwg, mae dau yn gymharol fychan a dau ohonynt yn fwy. Yn amlwg, y nod gyda chynlluniau o'r fath yw y dylid ceisio eu hariannu o arian sydd eisoes yn ei le. Deallaf nad oes adnoddau ar gael ar gyfer y gofynion hyn. Fodd bynnag, awgrymir dyrannu'r arian hwn am flwyddyn yn unig er mwyn adolygu a ellir ail-gyfeirio adnoddau mwy parhaol ar gyfer gofynion y cynlluniau hyn os oes angen eu parhau ar ôl i'r adnoddau unwaith ac am byth sydd ar gael ddod i ben.'

**Y Prif Swyddog Cyllid**

'Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd "bidiau" am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau'r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i'w hariannu a'u comisiynu drwy drefn y 'Cynllun Strategol'. Mater i aelodau'r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i'r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd

y Cabinet am gymeradwyaeth eto.’

**Y Swyddog Monitro**

‘Fel y nodir yn yr adroddiad mae’r argymhellion yma yn deillio o ymrwymiadau sydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-18 ac yn gynigion priodol a rhesymegol’

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Mawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas**<br>**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2017/18**<br>**Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol [P9]** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ymrwymo £40,000 o gyllid ychwanegol er mwyn gweithredu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae rhai cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/18 angen adnoddau er mwyn gwireddu amcanion y prosiect.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn dymuno asesu pob prosiect sy'n ceisio adnoddau ychwanegol yn unigol.

## 3 CYFLWYNIAD

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect arloesol y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd ac sydd bellach wedi cael ei ledaenu yn genedlaethol. Ar gais Llywodraeth Cymru, yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter yng Ngwynedd, gofynnwyd i gael defnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith Cynradd, a pharhau i wella sgiliau iaith Gymraeg ein pobl ifanc, yn ystod 2016/17, datblygwyd Strategaeth Iaith Uwchradd sydd yn rhoi arweiniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Mae'r Strategaeth yn ymgorffori argymhellion adroddiad Cwmni Trywydd (adroddiad a gomisiynwyd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd), Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd, Argymhellion Adroddiad Alun Charles, Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae'r Strategaeth yn gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

Mae angen yr adnoddau ychwanegol er mwyn cyllido swydd (secondiad blwyddyn yn y lle cyntaf) 'Cydlynydd Siarter Iaith Uwchradd', i:

- Gefnogi'r 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith

Nodir isod y cyfrifoldebau fydd ynghlwm â'r swydd:

- Arwain, hyrwyddo a chefnogi gwaith holl ysgolion uwchradd Gwynedd i weithredu y Siarter Iaith Uwchradd, gan feithrin arbenigedd, cynyddu dealltwriaeth o hanfodion cynllunio iaith, ynghyd â sefydlu dulliau monitro, casglu data, mesur effaith ac achredu gweithrediad y Siarter Iaith.
- Arwain a chydweithio gydag ysgolion y Sir er mwyn codi safonau cyrhaeddiad disgyblion mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Darparu hyfforddiant addas i wahanol haenau o'r gweithlu.
- Cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod yr Awdurdod yn ymateb i ofynion ac egwyddorion:
    - Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
    - Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
    - Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg
    - Strategaeth Iaith a Chynllun Strategol yr Awdurdod
- Cyfrifoldeb am ddatblygu, arwain a hyrwyddo polisi yr Awdurdod yng nghyd-destun Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Uwchradd Gwynedd.
- Cyfrifoldeb am osod safonau gwaith a sefydlu gweithdrefnau gyda holl weithlu'r ysgolion uwchradd fydd yn arwain at ddatblygu gallu a hyder disgyblion i fod yn hyfedr ddwyieithog.
- Cyfrifoldeb am arwain a chydlynu cyfarfodydd o'r grŵp gorchwyl a gorffen 'Gweithgor Iaith Uwchradd' a chymryd rôl weithredol fel aelod ohono.
- Cyfrifoldeb am weithredu, hyrwyddo a chefnogi gwaith yr ysgolion mewn perthynas â chyflawni gofynion y Siarter Iaith gan ddehongli hynny yng nghyd-destun defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg a chodi safonau cyflawniad addysgol.
- Cynllunio, darparu a chomisiynu hyfforddiant addas i wahanol haenau o'r gweithlu wrth ymateb i ofynion y Siarter Iaith.
- Cyfrifoldeb am ddatblygu a meithrin sgiliau ac arbenigedd cynllunio iaith

ac ymwybyddiaeth iaith ymysg y gweithlu.
- Meithrin cysylltiadau rhwng ysgolion fydd yn hyrwyddo cydweithio effeithiol a strategol i hyrwyddo a chefnogi gwaith ymarferwyr ar draws y sector uwchradd.
- Arwain a darparu gwybodaeth arbenigol am hanfodion cynllunio iaith; ymchwil a thystiolaeth yn y maes; a chynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion ynglŷn â dulliau o fesur effaith defnydd iaith.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion er mwyn eu galluogi i lunio portffolio o dystiolaeth ddigonol ac eglur a fydd yn ategu nod y Siarter Iaith.
- Sefydlu a rheoli'r broses o fonitro ac achredu gwaith yr ysgolion.
- Cyfrifoldeb am sefydlu llyfrgell wybodaeth o ddata a thystiolaeth am ddylanwad ac effaith gweithredu'r Siarter Iaith ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai derbyn yr adnodd ychwanegol gan y Cyngor yn caniatáu parhad a dilyniant cadarn i'r prosiect ac yn sicrhau bod Gwynedd yn parhau i arwain ar waith arloesol ar draws y Gogledd ac yn genedlaethol.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd angen yr adnodd ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth o 1 Ebrill 2017.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

*D/B.*

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

Prif Weithredwr:

Mae symud ymlaen gyda gweithredu Strategaeth Iaith Uwchradd ac arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg yn bwysig iawn i'r Cyngor ac felly mae angen cymeradwyo'r cais er mwyn gweithredu ymhellach ar hynny.

Prif Swyddog Cyllid:

Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau

perthnasol.

Yn y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth 2017, pryd cymeradwywyd "bidiau" am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau, nodais fod prif flaenoriaethau'r Cyngor, materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth, i'w hariannu a'u comisiynu drwy drefn y 'Cynllun Strategol'. Mater i aelodau'r Cabinet, gydag arweiniad y Prif Weithredwr, yw blaenoriaethu'r defnydd o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl hyn.

Wedi penderfyniad y Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 i gymeradwyo trosglwyddo £635k i'r Gronfa Trawsffurfio, cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i wireddu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth i gyfarfod 28 Mawrth 2017 y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill allasai amlygu / aeddfedu a chyrraedd y Cabinet am gymeradwyaeth eto.

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
28 Mawrth 2017

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Cynllun Asedau'r Cyngor 2009/10 i 2018/19

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

**Y penderfyniad a geisir**

Bod y Cabinet

i. Yn nodi canlyniad terfynol tebygol y Cynllun Asedau 10 mlynedd;
ii. Yn cadarnhau nad oes bellach angen £15m ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r cynllun yma gan ystyried gofynion y gwasanaeth hwnnw fel rhan o Gynllun newydd fydd yn cael ei baratoi gan y Cyngor newydd;
iii. Yn dynodi £200,000 adnodd na fydd bellach ei angen ar gyfer ariannu benthyca heb gefnogaeth i gwrdd â'r bwlch yn ein harbedion ar gyfer 2016/17
iv. Yn defnyddio £800,000 o'r adnodd hefyd i atgyfnerthu'r gyllideb cynnal a chadw o 1 Ebrill 2017 gan adael y gweddill i'r Cyngor newydd ei ystyried wrth drafod arbedion a chynllun asedau'r dyfodol.

---

**Cefndir**

1. Yn 2009, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o anghenion gwariant cyfalaf y Cyngor, ac yn wyneb y ffaith nad oedd ein hadnoddau am ganiatáu i ni gyfarch yr holl anghenion hynny, cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau'r Cyngor i geisio sefydlu beth oedd ein blaenoriaethau cyfalaf am y 10 mlynedd i ddod.

2. Yn sgil y trafodaethau hynny sefydlwyd Cynllun Asedau, ac fe'i fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 22 Hydref 2009.

3. Gellir gweld y Cynllun yn llawn drwy ddilyn y linc isod –

   https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/Data/Cyngor%20Llawn/20091022/Agenda/16_01_Cynllun%20Asedau%20Corfforaethol.pdf

4. 2018/19 fydd blwyddyn olaf y cynllun presennol a bydd disgwyl i'r Cyngor newydd sefydlu strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2018/19 – 27/28 yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.

5. Pwrpas yr adroddiad yma yw hysbysu'r Cabinet o beth sydd wedi digwydd dros oes y cynllun a chau pen y mwdwl ar rai agweddau o'r cynllun gwreiddiol.

6. Yn gyffredinol, 'roedd y Cynllun yn rhagweld gwariant cyfalaf dros y 10 mlynedd o £143.8m. Rhoddir crynodeb o beth oedd dan sylw yn Atodiad 1.

7. Y bwriad oedd ariannu'r £143.8m drwy'r dulliau canlynol-

    i. Dyraniad cyfalaf gan y Llywodraeth – £98.7m
    ii. Derbyniadau Cyfalaf (fe gytunwyd i raglen o werthu eiddo nad oedd yn rhaid ei gadw i ariannu ein hanghenion cyfalaf) - £14.1m
    iii. Grantiau penodol gan adrannau'r llywodraeth - £4m
    iv. Benthyca heb gymorth - £23m
    v. I'w ddarganfod - £4m

8. Roedd y Cynllun yn rhagweld y byddem yn defnyddio £23m o fenthyca darbodus (hynny yw benthyca heb gymorth ariannol gan y llywodraeth ar ei gyfer), fyddai'n golygu gorfod darganfod arbedion refeniw i'w ariannu.

9. Ar y pryd, 'roeddem yn rhagweld y byddai angen £909,100 o gyllideb refeniw am bob £10m y byddem yn benthyca gan olygu ein bod angen darganfod arbedion refeniw o £2.091m i gwrdd â'r benthyca a ragwelwyd.

10. 'Roedd cyllideb refeniw 2009/10 eisoes yn cynnwys £1.55m o arbedion refeniw wedi eu gosod o'r neilltu er mwyn benthyca'r swm yr oedd ei angen gyda golwg at ychwanegu at hwn yn y blynyddoedd i ddod. [Erbyn 2012/13 'roedd y Cyngor wedi llwyddo i godi'r swm yma i £2.7m]

**Datblygiadau diweddarach**

11. Yn fuan wedi cymeradwyo'r cynllun fe ddigwyddodd dau beth o sylwedd i newid y Cynllun.

12. Erbyn 2011/12 'roedd effaith yr argyfwng bancio wedi gweithio ei ffordd drwodd i'r pwrs cyhoeddus ac fe aeth y gefnogath yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei roddi i ni fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf i lawr o £9.9m yn flynyddol i'r £6.67m a welwn heddiw. Golygodd hyn ein bod wedi colli gwerth £23.75m o adnoddau dros oes y cynllun.

13. ‘Roedd yna alwadau eraill wedi amlygu eu hunain hefyd yn y cyfamser, sef yr angen i’r Cyngor ddarganfod cyllid cyfatebol os oedd am ddenu grantiau gan y Llywodraeth i wella ein hysgolion. Llwyddwyd i ddenu adnodd ar gyfer cyflawni nifer o gynlluniau ysgolion (gan gynnwys Bro Dysyni; Ardal Penllyn; Y Gader; Groeslon; Glan Cegin a Hafod Lon). Roedd hyn yn golygu gwariant o £34.84m uwchben yr hyn oedd eisoes yn y Cynllun Asedau yn cael ei ariannu drwy £22.83m grantiau gwella ysgolion a £12.01m i’w ddarganfod gan y Cyngor.

14. ‘Roedd yna bryder hefyd ar y pryd y byddem angen gwneud rhywbeth ynglŷn â’r argyfwng yn y maes gofal ac fe gytunwyd fod angen darparu £15m yn y Cynllun rhag ofn ein bod yn dymuno gwneud rhywbeth yn y maes.

15. Yn Rhagfyr 2011 fe gytunodd y Cyngor ymgorffori’r newidiadau i’r Cynllun gan geisio darganfod y £50.76m ychwanegol drwy ddefnyddio mwy o fenthyca heb gefnogaeth.

16. Yn ddamcaniaethol, ar sail y cyfrifiad a wnaed yn ôl yn 2009, byddai hyn wedi golygu y byddai angen i ni fod wedi cynyddu’r gyllideb refeniw y byddai ei angen o £2.7m i £6.7m er mwyn ariannu cyfanswm y benthyca heb gefnogaeth.

17. Dros y blynyddoedd dilynol mae’r Cyngor hefyd wedi ychwanegu gofynion cyfalaf megis ychwanegiad at gynllun Ysgol yr Hendre (£2.93m); ychwanegiad at wariant trefniadaeth i fedru paratoi cynlluniau (£1.26m); a chydnabod costau uwch ym maes gwaredu gwastraff (£1.11m).

**Asesiad o’r sefyllfa bresennol**

18. Y peth cyntaf i’w nodi yw nad ydym wedi llwyddo i ddarganfod y £6.7m fyddai ei angen i ariannu’r benthyca heb gefnogaeth yn dilyn adolygiad 2011.

19. Y rheswm am hyn wrth gwrs yw’r ffaith fod y dirwasgiad hefyd wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllidebau refeniw awdurdodau oedd yn golygu fod angen pob ceiniog o arbedion yr oedd modd i ni eu darganfod i ariannu’r bwlch refeniw sylweddol oedd yn codi.

20. Fodd bynnag, o fod wedi mabwysiadu Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol fel rhan o’n Strategaeth Rheoli Trysorlys sy’n pennu polisi penodol ar gyfer rhannu ad-daliadau benthyciadau heb gefnogaeth dros gyfnodau penodol hyd at 50 mlynedd; ac o ystyried fod cyfraddau llog bellach ar lefel hynod o isel yn hanesyddol, amcangyfrifir bellach mai

dim ond tua £2.9m fyddai ei angen i fenthyca'r oll o'r £73.76m fyddai ei angen [y £23m gwreiddiol a'r £50.76m a nodir yng nghymal 13 uchod.]

21. Bu yna ddatblygiadau eraill hefyd.

22. Nid yw'r angen ar gyfer adnoddau cyfalaf ym maes gofal cymdeithasol wedi codi yng nghyfnod y cynllun ac felly nid oes angen y £15m (er efallai y bydd angen ei gynnwys yn y cynllun nesaf). Ariannwyd unrhyw ofynion yr oedd eu hangen (e.e. Canolfan Frondeg) drwy ddefnyddio arbedion refeniw o fewn yr achos busnes i'w ariannu, ac 'rydym wedi llwyddo i gyfeirio adnoddau grantiau tai cymdeithasol i wireddu cynlluniau tai gofal ychwanegol.

23. 'Rydym hefyd wedi medru lleihau'r angen i wario drwy amryfal ffyrdd –

i. O dderbyn grantiau i wella cyflwr ffyrdd roedd modd lleihau ein dibyniaeth ar y Cynllun Asedau;
ii. Bu modd darganfod ffyrdd neillog i osgoi gwario ar adeiladau "Vic Hallam" yn yr ysgolion;
iii. O waredu adeiladau bu modd lleihau'r gofyn gwario ar ôl groniad cynnal a chadw;
iv. Newidiwyd dull adnewyddu rhai cerbydau; a
v. Derbyniwyd arian grant i gyllido elfen o'r rhaglen lleihau allyriadau carbon.

24. Llwyddwyd hefyd i greu rhywfaint mwy o dderbyniadau cyfalaf na ddisgwyliwyd ac i osod mwy o reserfau o'r neilltu - er bod effaith hyn wedi cael ei feirioli oherwydd y penderfyniad i beidio â gwaredu Doc Fictoria.

25. Ar ben hyn cyfyngwyd ar gyfanswm chwyddiant yr ydym wedi gorfod ei ddarparu ar gyfer y rhaglen drwy fynnu cadw cynlluniau at y symiau gwreiddiol a ddarparwyd lle'r oedd hynny'n bosibl.

26. Un sgil effaith cynllunio o flaen llaw yw oherwydd ein bod wedi darparu'r cyllid refeniw ar gyfer benthyca heb gefnogaeth o'r cychwyn cyntaf, ond nad ydym wedi gorfod gweithredu ar y benthyciad yn syth oherwydd amseru'r rhaglen gyfalaf, am bob blwyddyn nad ydym wedi gorfod benthyca mae yna £2.7m (neu faint bynnag sydd ar ôl yn y gyllideb ar ôl ariannu benthyciadau heb gefnogaeth neu fidiau unwaith ac am byth) wedi bod ar gael i gyfrannu'n ychwanegol tuag at y rhaglen.

27. Golyga hyn ein bod wedi darparu £16.92m yn fwy o adnoddau tuag at y strategaeth dros oes y cynllun.

28. Erbyn i ni gyrraedd blwyddyn olaf y cynllun felly, rhagwelir mai dyma fydd y sefyllfa o ran newidiadau i'r gofynion gwario a'r sefyllfa ariannu–

| **Ychwanegiad (Lleihad)** | **Swm £m** |
|---|---|
| **Gwario** | |
| Cynlluniau Ysgolion | 39.03 |
| Cynllun Gwella Priffyrdd (Grant ariannu benthyca gan Lywodraeth Cymru) | 11.87 |
| Lleihad yn yr angen am gynnal a chadw oherwydd gwaredu adeiladau | (2.07) |
| Darpariaeth Gofal Cymdeithasol (£15m yn wreiddiol ond nid oes ei angen bellach) | - |
| Lleihad yn y gwariant ar ffyrdd a phontydd yn sgil cynllun grant | (5.80) |
| Lleihad yn y gwariant ar y cynllun carbon oherwydd ariannu drwy gynllun Salix | (1.20) |
| Darganfod ffyrdd neillog o ddelio gydag adeiladau "Vic Hallam" mewn ysgolion | (3.88) |
| Lleihad yn y gofyn am gyfalaf i adnewyddu cerbydau | (1.70) |
| Costau ychwanegol strategaeth wastraff | 1.11 |
| Cyfyngu ar anghenion chwyddiant | (14.77) |
| **Cyfanswm ychwanegiadau net gwario** | **22.59** |
| **Ariannu** | |
| Grantiau gwella ysgolion | 22.83 |
| Grant ariannu benthyca gwella ffyrdd | 11.87 |
| Derbyniadau cyfalaf a reserfau ychwanegol | 2.79 |
| Darpariaeth benthyca na ddefnyddiwyd (cronnus) | 16.92 |
| Lleihad yn y cymorth benthyca gan y Llywodraeth | (23.75) |
| Benthyciad heb gefnogaeth a ariannwyd drwy'r gyllideb cyfalaf arferol | 2.27 |
| **Cyfanswm ychwanegiadau net ariannu** | **32.93** |
| Lleihad yn yr angen ariannu | **10.34** |

29. Er gwaethaf yr holl newidiadau felly fe welir fod yr angen ariannu wedi gostwng £10.34m o'r cynllun gwreiddiol am y rhesymau a nodir, ond gan fod ariannu gwreiddiol y cynllun yn brin o £3.97m, golyga hyn fod yr angen i fenthyca heb gefnogaeth yn lleihau o'r £23m gwreiddiol i £16.63m.

30. Yn wreiddiol 'roeddem wedi rhagweld y byddai angen £909,100 am bob £10m yr oeddem yn bwriadu ei fenthyca.

31. Yn sgil yr hyn a nodir yng nghymal 20 uchod am ein strategaeth rheolaeth trysorlys a chyfraddau llog  llawer is nag yr oeddent ar adeg paratoi'r cynllun, golyga hyn bellach ar mai £354,960 oedd ei angen am bob £10m o fenthyca a wneir ac mai dim ond £590,228 o'r £2.7m a roddwyd o'r neilltu

felly fydd ei angen i ariannu'r benthyca heb gefnogaeth y byddwn wirioneddol ei angen.

32. Roeddem eisoes yn gwybod elfen o hyn wrth osod rhaglen arbedion 2016/17 at ei gilydd, gan ragdybio y byddai yna £200,000 ar gael i gyfarch ein rhaglen arbedion. Mae'r arbedion effeithlonrwydd ychwanegol a gynlluniwyd ar gyfer 2016/17 yn cymryd felly y bydd £200,000 o'r swm yma ar gael ar gyfer cyfarch y bwlch arbedion.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**

33. Un agwedd sylfaenol o'r cynllun gwreiddiol oedd ceisio gwneud yn iawn am yr ôl groniad cynnal a chadw ar ein hadeiladau oedd wedi datblygu dros nifer fawr o flynyddoedd.

34. Aseswyd ar y pryd fod yr ôl-groniad (hynny yw'r gweithfeydd oedd angen eu cyflawni er mwyn dod a chyflwr yr adeiladau i gyflwr derbyniol) ychydig dros £20m. Darganfuwyd yn ddiweddarach ar ôl gwella ein systemau asesu fod y gofyn yn debycach i £27m.

35. Gan mai £2.5m yw'r gyllideb cynnal a chadw arferol, yn amlwg os oedd gennym ôl groniad wedi datblygu nid oedd y swm hwnnw yn ddigonol. Cytunwyd felly i ddarparu £1.5m ychwanegol y flwyddyn dros oes y cynllun i geisio osgoi i'r ôl groniad fynd yn waeth.

36. Roeddem hefyd yn darparu £1.9m y flwyddyn i ddechrau cael gwared a'r ôl groniad o £27m oedd wedi cronni erbyn 2009/10.

37. Dengys adolygiad a wnaed yn 2015/16, ar ôl gwario £15.4m ar yr ôl-groniad, fod lefel yr ôl groniad wedi dod i lawr i £14.5m o'r £27m gwreiddiol ond wrth gwrs byddem wedi disgwyl iddo ddod lawr i £11.6m os oedd ein tybiaethau gwreiddiol yn gywir.

38. 'Roedd hyn yn awgrymu nad oedd y £1.5m y flwyddyn ychwanegol yn ddigonol i osgoi i ôl groniad godi ac y dylem fod yn gwario yn agosach i £2.16m y flwyddyn yn uwch ar gynnal a chadw os am lwyddo i osgoi iddo gynyddu.

39. Dengys ein profiad felly fod y gwariant ychwanegol wedi llwyddo i leihau'n sylweddol lefel yr ôl-groniad cynnal a chadw, ond y bydd yna ôl groniad o hyd ar ddiwedd cyfnod y cynllun ac os ydym am osgoi iddo barhau i gynyddu fod angen gwario dros £2m y flwyddyn yn ychwanegol ar gynnal a chadw.

40. Yn yr hinsawdd bresennol mae hynny am fod yn anodd, ond efallai y dylid symud i'r cyfeiriad hwnnw.

**Casgliadau**

41. Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol yn y cymorth ariannol a roddir gan y Llywodraeth i gynghorau er mwyn ariannu eu rhaglenni cyfalaf, 'rydym wedi llwyddo i gyflawni'r hyn oedd gennym dan sylw yn ein Cynllun Asedau a dros y blynyddoedd wedi medru ychwanegu blaenoriaethau eraill atynt wrth iddynt godi.

42. Mae rheolaeth gadarn o'r rhaglen yn golygu ein bod wedi llwyddo i ariannu'r ychwanegiadau i'r rhaglen wreiddiol wrth leihau'r swm benthyca heb gefnogaeth yr oeddem ei angen, ac mae cyfraddau log is yn golygu ein bod angen llai o adnodd i gyllido'r benthyca hwnnw.

43. Dengys ein profiad nad yw £1.5m o gyllideb cynnal a chadw adeiladau ychwanegol yn ddigonol i osgoi dirywiad yng nghyflwr ein hadeiladau a bod yr angen yn agosach at £2m ychwanegol os am osgoi creu ol groniad pellach.

**Argymhellion**

44. Argymhellir felly bod y Cabinet –

    i. Yn nodi canlyniad terfynol tebygol y Cynllun Asedau 10 mlynedd;

    ii. Yn cadarnhau nad oes bellach angen £15m ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r cynllun yma gan ystyried gofynion y gwasanaeth hwnnw fel rhan o Gynllun newydd fydd yn cael ei baratoi gan y Cyngor newydd;

    iii. Yn dynodi £200,000 adnodd na fydd bellach ei angen ar gyfer ariannu benthyca heb gefnogaeth i gwrdd â'r bwlch yn ein harbedion ar gyfer 2016/17;

    iv. Yn defnyddio £800,000 o'r adnodd hefyd i atgyfnerthu'r gyllideb cynnal a chadw o 1 Ebrill 2017 gan adael y gweddill i'r Cyngor newydd ei ystyried wrth drafod arbedion a chynllun asedau'r dyfodol.

## ATODIAD 1

**Crynodeb o gynnwys y Cynllun Asedau a fabwysiadwyd yn Hydref 2009**

| **Gwariant ar** | **Swm £m** |
|---|---|
| Atgyfnerthu'r gwariant ar Gynnal a Chadw i osgoi dirywiad pellach | 15.00 |
| Gweithredu ar yr ol groniad cynnal a chadw | 19.00 |
| Camau i warchod rhag Tan ac Asbestos | 5.60 |
| **Addysg :** | |
| Darpariaeth yn lle dosbarthiadau "Vic Hallam" sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes | 15.30 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 5.80 |
| Darpariaeth ar gyfer Ysgol newydd ym Mangor | 4.50 |
| Materion eraill addysg | 2.64 |
| **Grantiau Adnewyddu Tai** | 21.00 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol :** | |
| Cynnal Ffyrdd | 8.00 |
| Adfer Ffensus Diogelwch | 1.10 |
| Adnewyddu Goleuadau Stryd | 0.50 |
| Strategaeth Wastraff | 6.90 |
| Adnewyddu Cerbydau | 3.40 |
| Man faterion eraill Priffyrdd & Bwrdeistrefol | 0.49 |
| **Rheoleiddio** : | |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 1.10 |
| Cynnal Pontydd a Waliau Cynnal | 1.25 |
| Lonydd Glas | 0.20 |
| **Cartrefi gofal** – man welliannau | 0.50 |
| **Datblygu'r Economi** – Man gynlluniau | 0.10 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 3.90 |
| Rheoli Carbon | 2.00 |
| Adeiladau eraill & Sustemau | 2.79 |
| Darpariaeth ar gyfer materion fyddai'n codi yn flynyddol | 5.00 |
| Darpariaeth Chwyddiant | 17.75 |
| **Cyfanswm** | **143.82** |

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Awdur yr adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad ac argymhellion priodol ar gyfer dirwyn y cynllun presenol i ben a phontio at greu y cynllun olynol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r Adran Cyllid wedi cydweithredu gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad a chadarnhaf gywirdeb y cynnwys. Credaf fod yr argymhellion yn synhwyrol yn yr amgylchiadau, hyd nes bydd cynllun newydd gerbron y Cyngor newydd.

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Mawrth, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas,<br>Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Addysg |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda'r perfformiad prosiectau Cynllun Strategol, gyda chynnydd da ar ran fwyaf ohonynt. Yn ogystal, mae'r perfformiad yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol, ond mae sylw penodol yn cael eu rhoi i faes Cyfnod Sylfaen Cynradd, a Chyfnod Allweddol 3.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ail broffilio gwireddu cynllun Clwb Brecwast i blant ysgolion cynradd, gan fu llithriad yn yr amser gwireddu. Bydd angen llithro £41,700 i'w wireddu yn 2018/19.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg

4.1.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau.

4.1.2 Yn dilyn craffu a dadansoddi perfformiad Haf 2016, mae'r prosiect wedi blaenoriaethu'r mater o godi safonau yn y Cyfnod Sylfaen gan fod perfformiad wedi bod yn statig ers rhai blynyddoedd bellach.

4.1.3 Er mwyn ymateb i hyn, mae'r Adran, trwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol, wedi bod yn canolbwyntio ar y canlynol:

-Sefydlu Rhaglen Uwch Sgilio cymorthyddion dosbarth er mwyn ymateb i dan berfformiad yn y maes: Hyfforddiant i dargedu llefaredd yn y cyfnod sylfaen
-Targedu cysondeb asesiadau athrawon
-Sicrhau gwell ddealltwriaeth gan benaethiaid o ofynion sydd ynghlwm gyda deilliannau'r cyfnod sylfaen fel eu bod yn fwy hyderus i herio targedau ac asesiadau. Mae 3 ymgynghorydd her yn gweithio gyda'r ysgolion i dargedu deilliannau o ran datblygiad ieithyddol a mathemateg.

4.1.4 Mae'n deg dweud bod y Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS) yn gynyddol profi ei werth, ac mae'r ffaith bod llai o ysgolion yn mynd i mewn i gategori yn brawf o hynny. Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan BAS yn sicr yn cael effaith ar arolygiadau a phroffiliau categoreiddio. Dim ond dwy ysgol sydd mewn unrhyw gategori dilyniant ar hyn o bryd a dwy Ysgol yn unig sydd yn y categori coch. Mae categoreiddio 2016-17 yn amlygu gwelliannau yn y proffil - gweler **Atodiad 1.** Y neges bwysig yma yw ein bod wedi gweld cynnydd y categorïau Gwyrdd a Melyn ers 2014. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ganran o 71.2% yn 2014-15 i 86.3% yn 2016-17.

### 4.2. P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

4.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

4.2.2 Mae gwaith o ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar egwyddorion 'Addysg i Bwrpas i Wynedd' yn parhau. Ers i mi adrodd tro diwethaf, cynhaliwyd sesiynau galw heibio ar draws Gwynedd gyda llywodraethwyr, rheini a'r gymuned yn ehangach. Mae'r adran yn dadansoddi'r wybodaeth sydd wedi'i dderbyn trwy'r sesiynau yma. Y gobaith yw cyflwyno'r weledigaeth newydd cyn cyfnod yr Haf. Bydd yr amserlen yma yn mynd law yn llaw gyda chynlluniau ar gyfer rhaglen Band B Llywodraeth Cymru.

4.2.3 Mae'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth yn mynd rhagddo ar gyflymder da, gyda gwaith wedi cychwyn ar gynllunio rhaglen i gefnogi arweinwyr y dyfodol ac adnabod unigolion addas. Yn ogystal, mae rhaglen datblygu ychwanegol wedi'i chyflwyno ar gyfer Arweinwyr canol ble mae elfen o bryder am eu gweithredu.

4.2.4 Mae'r proffil arolygiadau ar gyfer 2016-17 yn gadarnhaol iawn – gweler **Atodiad 2.** Bellach, nid oes yr un ysgol mewn categori statudol a dim ond dwy ysgol sydd mewn categori Monitro Estyn (Bro Cynfal a Llanbedr). Mae'r ddwy ysgol hon wedi gwneud cynnydd disgwyliedig ar y cyflymder priodol.

**4.3. Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol**

4.3.1 **P4 Ysgol Bro Idris**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch y Gader.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserol a osodwyd. Mae'r strwythur staffio ar gyfer yr ysgol wedi'i gytuno a mwyafrif o'r swyddi rheolaethol, gyda'r penaethiaid safle wedi'u penodi ddechrau mis Chwefror. Bydd y Dirprwy yn cychwyn ar ôl Pasg yn ogystal.

Mae polisi dyrannu safleoedd wedi ei gytuno a bydd proses dyrannu pob disgwyl yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

4.3.3 **P5 Ysgol Glancegin**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen gyda'r ysgol newydd yn barod erbyn dechrau tymor yr Hydref 2017. Mae'r Awdurdod yn monitro ceisiadau mynediad er mwyn sicrhau bydd y capasiti yn ddigonol ar gyfer y dalgylch.

Mae trafodaethau yn parhau gyda rhanddeiliad allweddol ynglŷn â'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Deulu Integredig ar y safle. Cafwyd cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd yn ddiweddar ynglŷn â'r anghenion ar gyfer yr ardal. Rwyf wedi gofyn i'r adran am adroddiad pellach ar y gwaith o sefydlu'r ganolfan, gan sicrhau trefniadau rheolaeth prosiect clir.

Rwyf hefyd yn awyddus i'r Adran gynnal trafodaethau gyda'r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn y Cyngor a'r Adran Eiddo am y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn yr Ysgol newydd.

4.3.4 **P6 Dalgylch y Berwyn**

Mae'r amserlen ar gyfer cychwyn y broses o sefydlu'r Corff Llywodraethu Cysgodol a phenodi pennaeth ar gyfer y Campws wedi llithro yn sgil y drafodaeth a fu'n ddiweddar rhwng y Cyngor a swyddogion esgobaeth Llanelwy.

Cyflwynais adroddiad i'r Cabinet ar 14 Chwefror yn manylu ar y sefyllfa a phenderfynwyd ail-ymgynghori gyda llywodraethwyr â chyrff Llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn, ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala. Y bwriad yw dychwelyd i'r Cabinet i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion o ran y ffordd ymlaen.

4.4 **P7 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

Mae'r broses ymgynghori ffurfiol wedi cychwyn efo'r gweithlu sydd yn cael eu heffeithio ac mae dau Uwch Reolwr wedi'u penodi. Mae'r broses o addasu'r strategaeth a'r strwythurau staffio'n parhau, ond mae targed pendant i benodi'r swyddi o fewn y strwythur cyn diwedd mis Mai 2017. Bydd y gwasanaeth yn weithredol ar draws Gwynedd a Môn erbyn mis Medi 2017.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

### 5.1. Mesurau Perfformiad Addysg – Data Haf 2016

5.1.1 Rwy'n atodi copi o fesurau'r adran yn ***Atodiad 3***.

5.1.2 Adroddais ar y mesurau/ canlyniadau Haf 2016 yn fy adroddiad i chi cyn y Nadolig. Gan mai yn flynyddol mae'r ffigyrau ar ganlyniadau yn cael eu hadrodd, nid yw'r data yma yn wahanol i'r hyn a gyflwynais i chi tro diwethaf.

5.1.3 Rwyf eisoes wedi nodi'r meysydd sydd angen gwelliant yn y sector cynradd ac uwchradd, ac fe fydd yr adran yn canolbwyntio ar faterion penodol rwyf wedi manylu arnynt yn barod ym mhwynt 4.1**(P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg).**

5.1.4 Cefais ohebiaeth ddiweddar gan Cyng. Peredur Jenkins yn gofyn i mi ystyried mesurydd ***anfonebau misol sy'n cael eu talu*** gan fod tystiolaeth yn dangos bod y ffigwr yn llithro gydag anfonebau ysgolion. Byddaf yn gofyn i'r swyddogion busnes yn y swyddfeydd ardal i dalu sylw i hyn ac yn adrodd yn ôl i chi maes o law.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1. Rhagwelir mai £55,408 o arbedion Adran Addysg y flwyddyn 2016/17 fydd yn cael eu gwireddu yn amserol, gyda'r gweddill (£38,681) yn llithro i 2017/18 a'r Adran yn pontio'r diffyg.

6.2 Cadarnhaf fod £2,095,000 o'r targed arbedion effeithiolrwydd ysgolion £4.3m (2015/16 – 2016/17) wedi'i weithredu yn llawn yn 2016/17.

6.3 Ar y cyfan, nid wyf yn rhagweld problem mewn gwireddu cynlluniau ar gyfer 2017/18 ond yn rhagweld bydd angen ail broffilio cynllun clwb brecwast i blant

ysgolion cynradd gan fod llithriad yn y cyfnod gweithredu. Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, bydd angen llithro £41,700 o'r cynllun yma i'w wireddu yn 2018-19.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

"Mae'r adroddiad sydd gerbron yn un bur gadarnhaol gyda chynnydd ym meysydd allweddol o Safonau Addysg a Gwella Arweinyddiaeth yn teilyngu sylw penodol. Mae'r arafwch mewn gwireddu arbedion yn unol â'r proffil yn destun peth pryder a rhaid cadw golwg ar hyn."

### Y Swyddog Monitro:

"Dim sylwdau o safbwynt priodoldeb."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Rwy'n cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yn rhan 6 o'r adroddiad. Cytunaf fod y cais i ail-broffilio un cynllun arbedion yn rhesymol, felly yng nghyllideb y Cyngor rwyf wedi cynllunio'n ddarbodus ar y rhagdybiaeth bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad."

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Rhestr Categoreiddio Ysgolion 2016 |
| **Atodiad 2** | Data Arolygiadau Ysgolion |
| **Atodiad 3** | Mesurau Adran Addysg |

## ATODIAD 1 – CATEGOREIDDIO YSGOLION, IONAWR 2017

| | Gwynedd : Cynradd | Cat: Estyn | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | | | |
| 1 | Bodfeurig | | 2 | A | |
| 2 | Penybryn, Bethesda | | 1 | A | |
| 3 | Llanllechid | | 2 | A | |
| 4 | Rhiwlas, Bangor | | 2 | B | |
| 5 | Abercaseg, Bethesda | | 1 | A | |
| 6 | Tregarth | | 1 | A | |
| Brynrefail | | | | | |
| 1 | Gwaun Gynfi | | 2 | B | * |
| 2 | Llanrug | | 2 | B | * |
| 3 | Bethel | | 2 | A | |
| 4 | Cwm y Glo | | 2 | B | |
| 5 | Dolbadarn | | 2 | B | * |
| 6 | Penisarwaun | | 3 | B | * |
| 7 | Waunfawr | | 3 | B | * |
| Dyffryn Nantlle | | | | | |
| 1 | Bro Llifon | | 3 [D/B] | B | * |
| 2 | Brynaerau | | 2 | A | |
| 3 | Llanllyfni | | 2 | B | |
| 4 | Baladeulyn | | 1 | C | |
| 5 | Nebo | | 2 | B | |
| 6 | Bro Lleu | | 1 | A | |
| 7 | Talysarn | | 1 | A | |
| Friars/Tryfan | | | | | |
| 1 | Glanadda | | 2 | D | |
| 2 | Glancegin | | 1 | B | * |
| 3 | Babanod Coedmawr | | 2 | C | |
| 4 | Garnedd | | 2 | A | |
| 5 | Felinheli | | 2 | B | |
| 6 | Hirael | | 3 | B | |
| 7 | Faenol | | 1 | A | |
| 8 | Llandygai | | 1 | B | * |
| 9 | Cae Top | | 1 | A | |
| 10 | Ein Harglwyddes | | 4 | B | |
| Syr Hugh Owen | | | | | |
| 1 | Gelli | | 1 | B | |
| 2 | Felinwnda | | 2 | B | * |
| 3 | Rhosgadfan | | 3 | D | |
| 4 | Rhostryfan | | 3 | B | |
| 5 | Hendre | | 2 | B | |
| 6 | Bontnewydd | | 3 | A | * |
| 7 | Maesincla | | 1 | B | * |
| 8 | Llandwrog | | 3 | B | * |
| 9 | Santes Helen | | 4 | C | |
| Tywyn | | | | | |
| 1 | Craig y Deryn | MA | 4 | B | |
| 2 | Dyffryn Dulas | | 2 | B | |
| 3 | Penybryn | | 3 | B | * |
| 4 | Pennal | | 3 | B | |
| Gader | | | | | |
| 1 | Brithdir | | 2 | A | |
| 2 | Dinas Mawddwy | | 1 | B | * |
| 3 | Ganllwyd | | 4 | B | |
| 4 | Llanelltyd | | 3 | B | |
| 5 | Ieuan Gwynedd | | 3 | B | |
| 6 | Friog | | 3 | A | * |
| 7 | Dolgellau | | 2 | B | |
| Moelwyn | | | | | |
| 1 | Bro Cynfal | ME | 3 | C | |
| 2 | Edmwnd Prys | | 3 | B | |

# ATODIAD 1 – CATEGOREIDDIO YSGOLION, IONAWR 2017

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Manod | | 1 | B | * |
| 4 | Tanygrisiau | | 2 | B | |
| 5 | Bro Hedd Wyn | | 4 | B | |
| 6 | Maenofferen | | 2 | A | |
| Berwyn | | | | | |
| 1 | Bro Tegid | | 3 | B | * |
| 2 | O.M.Edwards | | 1 | A | |
| 3 | Bro Tryweryn | | 1 | A | |
| 4 | Ffridd y Llyn | | 2 | A | |
| 5 | Beuno Sant | | 3 | A | * |
| Ardudwy | | | | | |
| 1 | Traeth | | 3 | B | * |
| 2 | Dyffryn Ardudwy | | 4 | B | |
| 3 | Llanbedr | ME | 3 | C | |
| 4 | Garreg | | 3 | B | * |
| 5 | Cefn Coch | | 1 | A | |
| 6 | Talsarnau | | 2 | B | # |
| 7 | Tan y Castell | | 2 | B | * |
| Glan y Mor | | | | | |
| 1 | Abererch | | 2 | A | |
| 2 | Chwilog | | 1 | B | |
| 3 | Bro Plenydd | | 2 | B | * |
| 4 | Llanaelhaearn | | 2 | C | |
| 5 | Llanbedrog | | 3 | B | * |
| 6 | Llangybi | | 2 | B | |
| 7 | Pentreuchaf | | 3 | A | * |
| 8 | Eifl | | 2 | C | |
| 9 | Cymerau | MA | 1 | B | * |
| Botwnnog | | | | | |
| 1 | Nefyn | | 2 | A | * |
| 2 | Abersoch | | 3 | B | |
| 3 | Crud y Werin | | 3 | B | |
| 4 | Edern | | 2 | B | * |
| 5 | Babanod Morfa Nefyn | | 2 | A | |
| 6 | Sarn Bach | | 2 | A | * |
| 7 | Tudweiliog | | 1 | B | * |
| 8 | Pont y Gof | | 2 | B | * |
| 9 | Foelgron | | 2 | B | |
| Eifionydd | | | | | |
| 1 | Beddgelert | | 1 | B | * |
| 2 | Borth y Gest | | 2 | B | * |
| 3 | Treferthyr | | 3 | B | |
| 4 | Garndolbenmaen | | 1 | B | * |
| 5 | Eifion Wyn | | 1 | A | |
| 6 | Gorlan | | 3 | B | |
| 7 | Llanystumdwy | | 3 | B | * |
| Ysgolion Arbennig | | | | | |
| 1 | Pendalar | | - | B | * |
| 2 | Hafod Lon | | - | A | |

| | Gwynedd : Uwchradd | Cat: Estyn | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ardudwy | | 2 | B | |
| 2 | Berwyn | | 2>3 | B | |
| 3 | Botwnnog | | 2 | B | |
| 4 | Brynrefail | | 1 | B | * |
| 5 | Dyffryn Nantlle | | 3 | C | |
| 6 | Dyffryn Ogwen | | 1 | A | |
| 7 | Eifionydd | | 2>3 | C | |
| 8 | Friars | | 1 | B | * |
| 9 | Gader | | 1 | C | |

## ATODIAD 1 – CATEGOREIDDIO YSGOLION, IONAWR 2017

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Glan y Mor | | 1 | B | |
| 11 | Moelwyn | | 2>3 | B | * |
| 12 | Syr Hugh Owen | | 1>3 | B | |
| 13 | Tryfan | | 1 | B | * |
| 14 | Tywyn | | 1 | B | |

## ATODIAD 2 – DATA AROLYGIADAU YSGOLION

**DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD – ERS IONAWR 2015**

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod>Allan o gategori |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod>allan o gategori |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bro Cynfal | Cynradd | Haf 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn > |
| Cae Top | Cynradd | Haf 2016 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Bodfeurig | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Llanbedr | Cynradd | Hydref 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Maenofferen | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Rhiwlas | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Borth-y-Gest | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Penybryn, Tywyn | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol> allan o gategori |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Glan y Mor | Uwchradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |

**ATODIAD 2 – DATA AROLYGIADAU YSGOLION**

## ATODIAD 3 : MESURYDDION PERFFORMIAD – DATA HAF 2016

| | | | | 2013-2014 | 2014-15 | 2015-16 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | | | **Mesuriadau perfformiad** | **Perfformiad Haf 2014** | **Perfformiad Haf 2015** | **Perfformiad Haf 2016** | **Cyfeiriad uchelgais** |
| **CB** | **CS Estyn** | **Cenedlaethol** | | | | | |
| 1 | P1 A2 | EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed (ar y 31ain Awst blaenorol), mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sydd yn ennill pum gradd TGAU A*-C, yn cynnwys Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg – Trothwy Lefel 2+. | 61.1% | 63.3% | 65.9% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS08 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU graddau A* i C - Trothwy Lefel 2. | 87.7% | 88.9% | 85.9% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS07 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU graddau D i G - Trothwy Lefel 1. | 97.2% | 97.9% | 97.3% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS06 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC), Gradd C neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. | 60.5% | 62.4% | 64.4% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 615.8 | 617.2 | 591.0 | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau wedi gapio ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 362.2 | 362.0 | 355.8 | Gwelliant |
| | P1 | DGD17 | Canran y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. | 1.7% | 1.8% | I'w gadarnhau | Gwelliant |
| 1 | P1 | EDU/004 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 9 (CA3), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC). | 89.1% | 91.3% | 92.0% | Gwelliant |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | P1 | EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd CA3. | 81.20% | 83.2% | 83.7% | Gwelliant |
| 5 | 13 | GY06 | Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3. | 87.4% | 89.5% | 88.7% | Gwelliant |
| 1 | P1 | - | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 6 (CA2), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC). | 86.0% | 89.5% | 89.8% | Gwelliant |
| 2 | P1 | - | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (CS), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (DCS). | 85.2% | 86.8% | 86.8% | Gwelliant |
| 6 | P7 | EDU/008a | Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd. | 0 | 3 | 0 | Cynnal |
| 6 | P7 | EDU/008b | Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd. | 4 | 3 | 3 | Gwelliant |
| 4 | P1 | EDU/016a | Canran presenoldeb disggyblion yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd. | 95.10% | 95.19%% | 95.45% | Gwelliant |
| 4 | P1 | EDU/016b | Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd. | 94.20% | 94.6% | 95.16% | Gwelliant |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28ain Mawrth 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau'r Cynllun Strategol a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio'r cynllun **Arbedion yng nghyllideb y Crwner (DaCh13)** i 2018/19 yn hytrach na 2017/18 fel y bwriad gwreiddiol ac fel yr amlinellir yn 6.2.

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### *Y Gymraeg*

**4.1. I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg - Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.1.1 Mae'r prosiect yn dal i fynd yn ei flaen o fewn cymunedau Bangor, Dolgellau a Phormadog/Pwllheli a cheir crynodeb o'r prif weithgareddau isod. Fe'ch atgoffir fod y rhaglen waith ar gyfer y prosiect wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith trwy Hunaniaith.

**4.1.2 Bangor**

- **Popdy** - Dros yr wythnosau diwethaf mae'r dasg o godi ymwybyddiaeth am Popdy wedi parhau gyda gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal mae Menter Iaith Bangor yn parhau i ystyried ymgeisio am grant a fyddai'n gallu cyllido prosiect(au) cymunedol.
- Targedwyd busnesau (meithrinfeydd preifat, clybiau chwaraeon a gofalwyr iechyd cychwynnol) er mwyn eu cymell i gynyddu eu defnydd gweledol o'r Gymraeg a chodi hyder Cymraeg llafar hyd at 25 o staff fydd yn elwa o fynychu 5 sesiwn 3 awr. Mae'r sesiynau wedi cychwyn ym mis Ionawr 2017.
- Mae gwaith yn y maes plant a phobl ifanc yn parhau gyda sesiynau ymarfer pêl droed trwy gyfrwng y Gymraeg wedi eu cynnal i 27 o unigolion, darparu 4 diwrnod o weithgareddau awyr agored ar gyfer 15 o unigolion a chyflwyniad ar Frad y Llyfrau Gleision i 25 o unigolion. Yn ogystal, cynhaliwyd set gerddorol Gymraeg a chwis gan dargedu oddeutu 475 o ddisgyblion Blynyddoedd 7-13.
- Yn sgil cyfarfod a gynhaliwyd i drafod y Gymraeg yn Ysgol Friars bwriedir rhoi cyflwyniad ymwybyddiaeth iaith i ddisgyblion Blynyddoedd 7 a 12 yn ystod yr wythnosau nesaf.

**4.1.3 Dolgellau**

- Cynhaliwyd disgo ar gyfer unigolion dan 18 oed gan Fudiad Adloniant Dolgellau ym mis Tachwedd gyda 138 ym mynychu a Gig y Gaeaf ar ddiwedd mis Ionawr.
- Mae nifer o weithgareddau wedi eu cynnal yn y gymuned er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys gweithdy creu lanteri, gorymdaith Carolau a Bingo Nadolig. Yn ogystal, cynhaliwyd Noson Cawl a Chân lle gwelwyd un o'r busnesau lleol yn ei ariannu sy'n galonogol o ran perchnogaeth yn lleol i'r gwaith.
- Dros yr wythnosau diwethaf gwnaed ymdrech i greu Cyfnod Caru a rhoi Dolgellau ar y map fel cyrchfan rhamantus gan bontio Dydd Santes Dwynwen a Sant Folant.

**4.1.4 Porthmadog/Pwllheli**

- Cynhaliwyd gig Gymraeg ym Mhwllheli ar y 2il o Ragfyr 2016 a fynychwyd gan 58 o drigolion lleol.
- Yn ogystal, mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen o fewn y gymuned ym Mhorthmadog gyda 5 o grwpiau cymunedol wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i sefydlogi'r Gymraeg fel cyfrwng iaith ac wedi ymweld â 82 o fusnesau i rannu gwybodaeth am Becyn Hyrwyddo'r Gymraeg.

4.2 **I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus – Cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.2.1 Fel y bu i mi son yn fy adroddiad perfformiad diwethaf cytunwyd y byddai pob corff yn darparu papur cryno iawn yn asesu eu sefydliad yn erbyn y dyhead o gael y cyswllt cyntaf i unrhyw ddinesydd trwy gyfrwng y Gymraeg gan adrodd yn ôl erbyn diwedd Tachwedd. Er bod rhywfaint o lithriad yn yr amserlen erbyn cyfarfod y Cabinet rwyf yn disgwyl bod wedi derbyn ymatebion pob corff a bwriedir trefnu cyfarfod o'r grwp uwch swyddogion sy'n arwain ar y mater hwn yn ystod mis Ebrill.

4.2.2 Mae asesiad o allu'r Cyngor i wneud yr uchod wedi ei baratoi ac rwyf wedi cytuno i gyflwyno'r wybodaeth i Grŵp hunaniaith.

4.3 **I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol - Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.3.1 Mae'r gwaith o ddatblygu Strategaeth yn parhau. Bydd yn gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i Ysgolion Uwchradd y Sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

4.3.2 Ers i mi adrodd diwethaf enwebwyd Gweithgor o blith y Penaethiaid Uwchradd a'r Cydlynwyr Iaith i gydweithio i ddatblygu'r Strategaeth ac maent eisoes wedi dechrau ar eu gwaith.

4.4 **I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd -**
**Byddwn yn:**

**i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**

**ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**

**Cynnydd y Prosiect**

4.4.1 Fe gofiwch i mi son y tro diwethaf fod 4 Adran wedi eu blaenoriaethu (Ymgynghoriaeth Gwynedd, Economi a Chymuned, Rheoleiddio ac Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac erbyn hyn mae cynlluniau gweithredu drafft wedi eu llunio ar gyfer Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Adran Oedolion.

4.4.2 Mae gwaith pellach angen ei wneud hefo'r Adran Economi a Chymuned a Rheoleiddio ond rhagwelir y bydd y cynlluniau hyn yn eu lle erbyn i mi adrodd i chi nesaf.

4.4.3 Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod herio perfformiad mae gennyf rywfaint o bryder ynghylch perchnogaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd i'r cynllun gweithredu ac o ganlyniad byddaf i a'r Prif Weithredwr yn trefnu i gwrdd â'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet yn fuan er mwyn pwysleisio'r pwysigrwydd o gael perchnogaeth i'r Cynllun ar y lefel uchaf.

4.4.4 Byddaf yn parhau i adrodd ar gynnydd y prosiect yn ei gyfanrwydd fel rhan o fy adroddiadau perfformiad. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau perchnogaeth o fewn yr Adrannau rwy'n awgrymu y dylai'r Aelodau Cabinet perthnasol gymryd perchnogaeth o'r gwaith o fewn yr Adrannau dan sylw gan herio cynnydd y prosiectau o fewn y cyfarfodydd herio perfformiad.

4.4.5 Yn ychwanegol i'r gwaith dwys yn yr 4 Adran blaenoriaeth mae rhywfaint o ymyraethau mwy cyffredinol eu natur wedi eu rhoi ar waith mewn ymateb i rai o ganfyddiadau'r Awdit. Mae E-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith wedi ei ddatblygu a'i dreialu gyda grŵp ffocws yn ystod mis Rhagfyr a rhagwelir y bydd ar gael ar gyfer staff o fewn yr wythnosau nesaf.

4.4.6 Yn ogystal mae Cynllun Cyfathrebu wedi ei ddatblygu fydd yn fodd o sicrhau bod negeseuon o anogaeth, a negeseuon cadarnhaol am bwysigrwydd hybu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau yn cael eu cyfleu'n gyson i staff rheng-flaen. Mae arwyddion Iaith Gwaith eisoes wedi eu gosod yn holl Siopau Gwynedd er mwyn amlygu y gellir siarad Cymraeg gyda staff ymhob un o Siopau Gwynedd, gan felly annog y cyhoedd i wneud hynny.

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

4.5 **C3 Ymgysylltu - Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

4.5.1 Er mwyn grymuso Uwch Reolwyr a swyddogion i gymryd cyfrifoldeb am y maes ymgysylltu, ac yn unol â'r adborth a dderbyniwyd gan swyddogion, mae adnodd ymgysylltu electroneg wedi ei ddatblygu sy'n plethu gyda'r Llawlyfr Ymgysylltu Corfforaethol gan gynnwys cyfres o ddolenni, canllawiau a thempledi ymgysylltu ymarferol bellach ar gael ar y fewnrwyd.

4.5.2 Yn ogystal, mae'r Grŵp Uwch Reolwyr wedi derbyn cyflwyniad ar y maes a throsolwg o'r gefnogaeth a'r deunyddiau sydd ar gael ac wedi cynnal trafodaeth gychwynnol ar eu cyfrifoldebau yn y maes ymgysylltu. Mae dolenni i'r adnodd ar-lein wedi eu cylchredeg i'r Uwch Reolwyr i'w rhaeadru er mwyn lledaenu ymarfer da a grymuso swyddogion i gymryd perchnogaeth dros y maes.

4.6 **C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad - Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod Tîmau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad.**

**Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

4.6.1 Rwyf eisoes wedi adrodd bod peilot o'r Hyfforddiant Modiwl Perfformiad wedi ei gynnal ar yr 2il o Dachwedd 2016. Yn dilyn cwblhau addasiadau bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ymgorffori o fewn yr hyfforddiant Ffordd Gwynedd fydd yn cael ei gyflwyno i Reolwyr y Cyngor o fis Ebrill ymlaen.

**5 PERFFORMIAD**

5.2 Ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn ***Atodiad 1.*** Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith 7 o Unedau o fewn **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ynghyd a'r **Gwasanaeth Cyfreithiol**.

5.3 Yn dilyn herio perfformiad yr **Uned Ymchwil a Dadansoddeg** rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau.

5.4 Mae'r **Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu** yn galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal deialog dwyffordd gyda phobl Gwynedd. Ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2016 i Ionawr 2017 roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer y mesur **I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda Phobl Gwynedd** yn 9.6 allan o 10, o'i gymharu â 10 ym mis Tachwedd a 9.5 ym mis Medi. Rwyf wedi herio'r rhesymau a roddwyd ac yn hapus hefo'r camau sydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb.

5.5 Mae'r **Tîm Prosiectau** yn gyfrifol am reoli, cyd-gynhyrchu a gyrru newid er budd pobl Gwynedd. Gan ei bod yn anodd cael mesur addas ar gyfer y Tîm rwyf wedi gofyn iddynt gyflwyno gwybodaeth ar ffurf naratif i'r cyfarfodydd perfformiad yn y dyfodol gan amlygu unrhyw adborth sydd wedi ei dderbyn ynghylch aelodau o'r Tîm.

*5.6* Pwrpas y **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** yw paratoi gwybodaeth er mwyn i bobl Gwynedd gael gwybod be mae'r Cyngor yn ei wneud a be maen nhw am ei wneud i'r dyfodol megis yr *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* a'r *Cynllun Strategol.*

5.7 Ar gyfer y mesur **Pobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am be mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol am berfformiad y Cyngor (CG26)** dim ond 54% a nododd eu bod yn fodlon. Dywedodd 5% nad oeddent eisiau gwybod ond roedd 41% yn anfodlon gyda'r wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei gyflwyno. Rwyf wedi herio'r rhesymau dros hyn ac yn gobeithio y bydd y camau fydd yn cael eu rhoi yn eu lle yn arwain at welliant.

5.8 **Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn** sy'n gyfrifol am gefnogi cyrff cyhoeddus, mudiadau gwirfoddol a chymunedau i weithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau er lles pobl Gwynedd a Môn. Mae hyn yn cynnwys gweinyddu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

5.9 Dros y misoedd diwethaf mae'r Uned wedi bod yn gyfrifol am gynnal Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn a disgwylir y bydd drafft o'r asesiad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror gyda'r fersiwn derfynol i'w chyhoeddi cyn diwedd Ebrill.

5.10 Yn ogystal, ar gyfer adroddiadau perfformiad i'r dyfodol rwyf wedi gofyn i'r Uned gynnwys gwybodaeth ansoddol ynghylch yr adborth sydd wedi ei dderbyn gan bartneriaid.

5.11 Mae'r **Uned Gyfieithu** yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion. Yn y cyfarfod herio perfformiad diwethaf nodwyd fod defnydd sylweddol o gyfieithwyr allanol gan rai Adrannau. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa rwyf wedi gofyn i'r Uned wneud gwaith pellach er mwyn sefydlu beth yw cymhelliant yr Adrannau hynny dros ddefnyddio cyfieithwyr allanol ac i gymharu'r gost hefo gwneud y gwaith yn fewnol.

5.12 Gwelir bod perfformiad y mesur **Canran o holiadur bodlonrwydd gan swyddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn 9 neu 10/10** yn 96% ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn. Rwyf wedi trafod y rhesymau pam fod sgôr îs wedi ei roi gan gleientiaid ac yn hapus gyda'r camau sydd wedi eu rhoi yn eu lle gan y Gwasanaeth er mwyn ymateb iddynt.

5.13 Yn ogystal, rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried mesur yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau achosion neu waith ac i'w gyflwyno ar ffurf graff i gyfarfodydd yn y dyfodol fel ein bod yn gallu adnabod unrhyw dueddiadau.

**6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 Fel yr adroddais yn fy adroddiad diwethaf mae'r **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol.

6.2 Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yn anodd i wireddu'r cynllun arbedion **DaCh13 (Arbedion yng nghyllideb y Crwner)** yn 2017/18**,** sy'n gyfwerth a £13,795, ac o ganlyniad gofynnaf i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio'r cynllun i 2018/19.

**7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1 Dim i'w nodi.

**8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth a'r cynnydd a welir yn dda. Nodaf y broblem o ran y mesurydd ar bodlonrwydd pobl a'r wybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor yn gwneud drostynt ond mae'n anodd gwybod beth ymhellach y gellir ei wneud heb wario di-bwrpas. Bydd yn ddiddorol gweld a oes syniadau creadigol yn dod i'r golwg er mwyn mynd i'r afael â hyn.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yn rhan 6 o'r adroddiad, sydd yn sefyllfa i'w groesawu o ran arbedion. Cytunaf fod y cais i ail-broffilio un cynllun arbedion yn rhesymol, felly yng nghyllideb y Cyngor rwyf wedi

cynllunio'n ddarbodus ar y rhagdybiaeth bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

# Atodiad 1

## Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol

| **Mesur- diffiniad** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **2016-17 Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Gyfieithu** | | | | | |
| 1. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith ysgrifenedig | - | 100% | - | Cynnal | 100% |
| 2. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith cyfieithu ar y pryd | - | 100% | - | Cynnal | Newydd |
| **Sylwadau:**<br>1. Cafwyd 5 ymateb i'r holiadur sy'n gofyn "**Beth yw eich barn am y cyfieithiad? (1-5)**" gyda'r cwbl yn rhoi'r ateb uchaf posib o 5. | | | | | |
| **Ymchwil a Dadansoddeg** | | | | | |
| 1. Nifer cwsmeriaid sy'n nodi fod y cymorth wedi eu helpu i gael budd i bobl Gwynedd | - | - | - | - | 12 Do<br>1 Naddo |
| **Sylwadau:**<br>Yr 1 achos naddo yn ymwneud a chais am wybodaeth lle nad yw'r data yn cael ei gasglu na'i ddal gennym ar hyn o bryd. | | | | | |
| **Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn** | | | | | |
| 1. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod elfennau gweinyddol y partneriaethau o ansawdd ac yn amserol<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | <br>-<br>-<br>- | <br>-<br>100%<br>100% | <br>-<br>-<br>- | <br>- | <br><br>100% |
| 2. % o'r partneriaid sydd yn gytûn fod y cyfarfodydd a'r gwaith partneriaeth yn cyflawni yn effeithiol ar gyfer pobl Gwynedd a Môn | - | - | - | - | Newydd |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | | | | |
| 1. Bodlonrwydd adrannau gyda chefnogaeth yr Uned i'w helpu i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd | - | - | - | - | 9.6 |
| **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** | | | | | |
| **CG26** Pobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am be mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol | - | - | - | Gwelliant | 54% |
| **CG27** Ydi'r wybodaeth yn eich helpu chi i wybod sut/beth mae'r Cyngor yn ei wneud? | - | - | - | Gosod gwaelodlin | 72% |
| **Sylwadau:**<br>**CG27 –** Gwaith wedi ei wneud i sefydlu y rhesymau pam nad oedd 28% yn meddwl fod yr wybodaeth yn eu helpu a chamau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb. | | | | | |

## Mesurau Gwasanaeth Cyfreithiol

| **Mesur- diffiniad** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Canran o holiaduron bodlonrwydd gan swyddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn 9 neu 10/10. | - | - | - | Cynnal | 96% |

**EITEM 12 – CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:

14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd

(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â manylion cytundeb a threfniadau gwerthiant nad yw'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried yn eithriedig yn unol â chategori 14, gan ei fod yn wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn penodol.